| | |
|---|---|
| PWYLLGOR | **PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO** |
| DYDDIAD | **09 CHWEFROR 2023** |
| TEITL | **CYNNYRCH ARCHWILIO MEWNOL** |
| PWRPAS YR ADRODDIAD | **AMLINELLU GWAITH ARCHWILIO MEWNOL AM Y CYFNOD HYD AT 25 IONAWR 2023** |
| AWDUR | **LUNED FÔN JONES - RHEOLWR ARCHWILIO** |
| GWEITHREDIAD | **DERBYN YR ADRODDIAD, SYLWEBU AR Y CYNNWYS A CHEFNOGI'R GWEITHREDIADAU SYDD EISOES WEDI'U CYTUNO GYDA'R GWASANAETHAU PERTHNASOL** |

---

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Mae'r adroddiad yma yn crynhoi gwaith Archwilio Mewnol am y cyfnod o 1 Mai 2022 hyd 25 Ionawr 2023.

## 2. GWAITH A GWBLHAWYD YN Y CYFNOD

2.1 Cwblhawyd y gwaith canlynol o gynllun 2022-23 yn y cyfnod hyd at 25 Ionawr 2023:

| Disgrifiad | Nifer |
|---|---|
| Adroddiadau am Archwiliadau o'r Cynllun Gweithredol | 24 |

Ceir manylion pellach ar y gwaith yma yng nghorff yr adroddiad hwn ac yn yr atodiadau amgaeedig.

**2.2 Adroddiadau Archwilio**

2.2.1 Mae'r tabl canlynol yn gosod allan yr archwiliadau o'r cynllun a gwblhawyd yn y cyfnod hyd at 25 Ionawr 2023, gan ddangos y lefel sicrwydd perthnasol a chyfeiriad i'r atodiad perthnasol.

| TEITL | ADRAN | GWASANAETH | LEFEL SICRWYDD | ATODIAD |
|---|---|---|---|---|
| Datganiad Cyfrifyddu Harbyrau 2021-22 | Cyllid | Cyfrifeg | Uchel | Atodiad 1 |
| Datganiad Cyfrifyddu Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd 2021-22 | Cyllid | Cyfrifeg | Uchel | Atodiad 2 |
| Taliadau Bonws i Weithwyr Gofal (Rhan 2) | Cyllid | Pensiynau a Chyflogau | Uchel | Atodiad 3 |
| Taliadau Ychwanegol i Weithwyr Gofal (rhan 1) | Cyllid | Pensiynau a Chyflogau | Uchel | Atodiad 4 |
| *Ransomware* | Cyllid | Technoleg Gwybodaeth | Digonol | Atodiad 5 |
| Ad-daliadau Treth Cyngor | Cyllid | Refeniw | Digonol | Atodiad 6 |
| Diogelwch Tacsis | Amgylchedd | Gwarchod y Cyhoedd | Cyfyngedig | Atodiad 7 |
| Taliadau Cymorth Cyntaf | Corfforaethol | - | Digonol | Atodiad 8 |
| Dyletswyddau Economaidd Gymdeithasol | Corfforaethol | - | Digonol | Atodiad 9 |
| Cynllun Ffoaduriaid Wcrain | Corfforaethol | - | Digonol | Atodiad 10 |
| Cronfa'r Degwm | Economi a Chymuned | Adfywio Cymunedol | Uchel | Atodiad 11 |

| TEITL | ADRAN | GWASANAETH | LEFEL SICRWYDD | ATODIAD |
|---|---|---|---|---|
| Cyfrifon Amgueddfa Lloyd George | Economi a Chymuned | Amgueddfeydd ac Orielau | Uchel | Atodiad 12 |
| Cynllun Rheoli Traethau | Economi a Chymuned | Rhaglenni Datblygu Economaidd | Digonol | Atodiad 13 |
| Cronfeydd Answyddogol Ysgolion (Rhan 2) | Addysg | Adnoddau | Cyfyngedig | Atodiad 14 |
| Grant Addysg Ôl 16 | Addysg | Adnoddau | Uchel | Atodiad 15 |
| Cartref Plas Gwilym | Oedolion, Iechyd a Llesiant | Preswyl a Dydd | Cyfyngedig | Atodiad 16 |
| Cartref Hafod Mawddach | Oedolion, Iechyd a Llesiant | Preswyl a Dydd | Cyfyngedig | Atodiad 17 |
| Cartref Bryn Blodau | Oedolion, Iechyd a Llesiant | Preswyl a Dydd | Cyfyngedig | Atodiad 18 |
| Defnydd o Arian Parod | Oedolion, Iechyd a Llesiant | Ar draws yr Adran | Digonol | Atodiad 19 |
| Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 | Tim Arweinyddiaeth Corfforaethol | Cyfreithiol | Uchel | Atodiad 20 |
| Trefniadau Dychwelyd Cyfarpar Aelodau | Cefnogaeth Corfforaethol | Democratiaeth | Digonol | Atodiad 21 |
| Hyfforddi Aelodau | Cefnogaeth Corfforaethol | Democratiaeth | Digonol | Atodiad 22 |
| Grant Cymorth Tai | Tai ac Eiddo | Digartrefedd a Tai Cefnogol | Digonol | Atodiad 23 |

| TEITL | ADRAN | GWASANAETH | LEFEL SICRWYDD | ATODIAD |
|---|---|---|---|---|
| Grantiau i Brynwyr Tro Gyntaf | Tai ac Eiddo | Tai a Llesiant | Digonol | Atodiad 24 |

2.2.2 Mae lefelau sicrwydd cyffredinol archwiliadau yn syrthio i un o bedwar categori fel y dengys y tabl isod.

| | | |
|---|---|---|
| LEFEL SICRWYDD | UCHEL | Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion. |
| | DIGONOL | Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach. |
| | CYFYNGEDIG | Er bod rheolaethau mewn lle, mae angen gwella cydymffurfiaeth â'r rheolaethau a/neu gyflwyno rheolaethau newydd i leihau'r risgiau mae'r gwasanaeth yn agored iddynt. |
| | DIM SICRWYDD | Ystyrir bod y rheolaethau mewn lle yn annigonol gyda methiant i gyflawni amcanion. |

**3. GWAITH AR Y GWEILL**

3.1 Roedd y gwaith canlynol ar y gweill ar 25 Ionawr 2023:

- Cynghori ac Ymgynghori a Chefnogi Adolygiadau Ffordd Gwynedd *(Corfforaethol)*
- Cefnogi Adrannau Gwasanaethau yn dilyn y pandemig Covid-19 (Corfforaethol)
- Diogelwch Seicolegol *(Corfforaethol)*
- Gwaith Atal Twyll – Fenter Twyll Genedlaethol *(Corfforaethol)*
- Trefniadau Recriwtio a Dargadw (Corfforaethol)
- Cinio am ddim *(Addysg)*
- Canolfan Fusnes Ysgolion *(Addysg)*
- Balansau Wrthgefn Ysgolion *(Addysg)*
- Ysgolion Cyffrednol *(Addysg)*
- Cynllunio – Trefniadau Cyfathrebu *(Amgylchedd)*
- Manddaliadau *(Tai ac Eiddo)*
- Diogelu Data *(Cyllid)*
- Taliadau Cymorth Costau Byw *(Cyllid)*
- Neuadd Dwyfor *(Economi a Chymuned)*

- Trefniadau Recriwtio a Dargadw *(Oedolion, Iechyd a Llesiant)*
- Mesurau Diogelu Amddiffyn Rhyddid *(Oedolion, Iechyd a Llesiant)*
- Trefniadau Rheoli Prosiect *(Ymgynghoriaeth Gwynedd)*
- Incwm Masnachol *(Priffyrdd a Bwrdeistrefol)*
- Clefyd Coed Ynn *(Priffyrdd a Bwrdeistrefol)*

## 4. ARGYMHELLIAD

4.1 Gofynnir i'r Pwyllgor dderbyn yr adroddiad hwn ar waith Archwilio Mewnol am y cyfnod o 1 Mai 2022 hyd 25 Ionawr 2023, sylwebu ar y cynnwys yn ôl dymuniad yr aelodau, a chefnogi'r gweithrediadau cytunedig sydd eisoes wedi'u cyflwyno i reolwyr y gwasanaethau perthnasol.

Atodiad 1

# DATGANIAD CYFRIFYDDU HARBYRAU 2021-22

## 1. Cefndir

1.1 Yn unol â'r gofynion statudol o dan Ddeddf Harbyrau 1964 mae'n rhaid i Wynedd, fel awdurdod harbyrau, ddarparu datganiad cyfrifon blynyddol sy'n ymwneud â gweithgareddau harbyrau Pwllheli, Porthmadog, Abermaw ac Aberdyfi.

## 2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau cywirdeb datganiad blynyddol 'Harbyrau' ar gyfer y flwyddyn 2021/22, yn ogystal â chadarnhau bod rheolaethau mewnol priodol mewn lle.

## 3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Sicrwydd | Disgrifiad |
|---|---|
| HIGH | **Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion.** |

## 4. Prif Ddarganfyddiadau

4.1 Gellir datgan sicrwydd o gywirdeb datganiadau cyfrifyddu 'Harbyrau' ar gyfer y flwyddyn ariannol 2021/22. Yn seiliedig ar y profion a gynhaliwyd, gwelwyd fod trywydd archwilio priodol i'r ffigyrau ac y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion. Mae cyfrifon priodol wedi'u cadw a chynhelir cysoniadau banc fel rhan o weithgareddau ar draws y Cyngor.

4.2 Yn seiliedig ar y profion a gynhaliwyd gwelwyd fod sampl o daliadau wedi eu cefnogi gydag anfonebau neu dderbynebau priodol, a bod treth ar werth wedi ei drin yn briodol. Roedd hefyd trywydd priodol i sampl o drosglwyddiadau eraill a wnaethpwyd drwy drosglwyddiadau mewnol.

4.3 Gweinyddir costau staff drwy Uned Cyflogau Cyngor Gwynedd ble chymhwyswyd gofynion TWE ac Yswiriant Gwladol yn briodol. Cofnodir y costau staffio yma yn briodol yn y datganiad a sicrhawyd bod gan sampl o'r swyddogion yma gytundebau cyflogaeth briodol.

4.4 Cefnogir ffigwr asedau sefydlog ar y datganiadau cyfrifyddu gan gofrestr asedau.

Atodiad 2

**CYFRIFON PWYLLGOR POLISI CYNLLUNIO AR Y CYD**
**(CYNGHORAU GWYNEDD A MÔN)**

## 1. Cefndir

1.1 Mae’r Pwyllgor Polisi ar y Cyd yn gyd-bwyllgor a sefydlwyd yn unol ag Adran 101 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 gan Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn. Mae’n ofynnol i gyfrifon ar wahân gael eu cynhyrchu ar gyfer cyd-bwyllgorau. Gan mai Cyngor Gwynedd sy’n arwain ar y gwasanaeth cyllid a chyfrifeg i'r cyd-bwyllgor hwn, Cyngor Gwynedd sydd felly â’r cyfrifoldeb am gwblhau’r datganiad ariannol.

## 2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau cywirdeb datganiad blynyddol y Pwyllgor ar gyfer y flwyddyn ariannol 2021/22, yn ogystal â chadarnhau bod rheolaethau mewnol priodol mewn lle.

## 3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i’r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Sicrwydd | Disgrifiad |
|---|---|
| UCHEL | **Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion.** |

## 4. Prif Ddarganfyddiadau

4.1 Gellir datgan sicrwydd o gywirdeb datganiad cyfrifyddu Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd (Cynghorau Gwynedd a Môn) ar gyfer y flwyddyn ariannol 2021/22. Yn seiliedig ar y profion a gynhaliwyd, gwelwyd bod trywydd archwilio priodol o’r ffigyrau ac y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion. Mae cyfrifon priodol wedi’u cadw a cynhelir cysoniadau banc fel rhan o weithgareddau ar draws y Cyngor.

4.2 Yn seiliedig ar y profion a gynhaliwyd gwelwyd fod trywydd archwilio priodol ar gyfer sampl o drosglwyddiadau a wnaethpwyd drwy drosglwyddiadau mewnol. Yn ogystal, gwiriwyd bod sampl o daliadau wedi eu cefnogi gydag anfonebau perthnasol i’r cyfnod dan sylw, a bod TAW wedi ei drin yn briodol.

4.3 Gweinyddir costau staff drwy Uned Cyflogau Cyngor Gwynedd ble chymhwyswyd gofynion TWE ac Yswiriant Gwladol yn briodol. Cofnodir y costau staffio yma yn briodol yn y datganiad. Sicrhawyd bod gan sampl o’r swyddogion yma gytundebau cyflogaeth priodol.

Atodiad 3

**TALIADAU BONWS I WEITHWYR GOFAL**

**1. Cefndir**

1.1 Ar 17 Mawrth 2021, cyhoeddodd y Gweinidog Iechyd y bydd Llywodraeth Cymru yn ariannu taliad bonws i staff y GIG a staff gofal cymdeithasol i gydnabod eu cyfraniad eithriadol yn ystod pandemig COVID-19. Mae'r taliad yn daliad un tro yn cyfateb i £735 y pen, gyda didyniadau ar gyfer treth incwm, cyfraniadau yswiriant gwladol a phensiwn. Ar ôl didyniadau bydd y rhan fwyaf o weithwyr yn derbyn oddeutu £500. Daw'r bonws ar ben y taliad arbennig o £500 i weithwyr cartrefi gofal a gweithwyr gofal cartref a gyflwynwyd ym mis Mai 2020 i gydnabod eu gwaith yn ystod ton gyntaf y pandemig. Bydd y bonws hwn yn cael ei roi i grŵp ehangach o weithwyr gofal cymdeithasol, mynegir yn y canllawiau 'Cynllun cydnabyddiaeth ariannol Llywodraeth Cymru ar gyfer y GIG a gofal cymdeithasol' bod y swyddi cymwys Gwasanaethau Cymdeithasol yn cynnwys: "Holl staff gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdodau lleol gan gynnwys; Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol, penaethiaid gwasanaeth a'r holl staff o dan y rheolwyr hyn gan gynnwys staff cymorth, gweithwyr cymdeithasol a chynorthwywyr gwaith cymdeithasol."

**2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad**

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod trefniadau addas mewn lle ar gyfer gweinyddu taliadau bonws i weithwyr Gofal. Er mwyn cyflawni hyn, adolygwyd y trefniadau ar gyfer adnabod, cyfathrebu a dilysu taliadau, gwirio sampl o daliadau a wnaed i sicrhau eu bod yn gymwys, yn gywir ac amserol, yn ogystal ag adolygu trefniadau ar gyfer y broses apêl, adrodd at Lywodraeth Cymru ac ad-hawlio taliadau.

2.2 Cynhaliwyd yr archwiliad yma mewn dau rhan, rhan cyntaf (cyhoeddwyd adroddiad Chwefror 2022) yn edrych ar yr holl weithrediad o ryddhau'r canllawiau a'r ffurflenni cais i'r holl ddarpar ymgeiswyr, i dalu ymgeiswyr a chyflwyno cais ad-hawlio am arian i LC. Mae rhan 2 o'r archwiliad wedi cael ei gynnal ar ôl Mawrth 2022 i sicrhau bod y cais ad-hawlio arian terfynol i LC wedi cael ei gyflwyno yn gyflawn yn dilyn gwiriadau i adnabod taliadau dyblyg, a bod unrhyw faterion sydd yn sefyll megis anfonebu taliadau dyblyg wedi cael eu cynnal yn amserol.

**3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad**

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Sicrwydd | Disgrifiad |
|---|---|
| UCHEL | **Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion**. |

## 4. Prif Ddarganfyddiadau

4.1 Gwelwyd bod trefniadau addas mewn lle ar gyfer gweinyddu a phrosesu ceisiadau am daliadau bonws i weithwyr gofal. Darganfuwyd bod trefniadau priodol ar gyfer dosbarthu cyfarwyddiadau i holl weithwyr/rheolwyr, darparwyr allanol ac unigolion cymwysedig.

4.2 Gwelwyd bod yr holl ceisiadau wedi cael eu gweithredu'n gywir ac amserol ar gyfer sampl o ddarparwyr allanol a wiriwyd.

4.3 O'r sampl a wiriwyd gwelwyd bod taliadau wedi cael eu gweithredu ar sail derbyn cadarnhad gan y rheolwr llinell bod eu swyddogion yn deilwng i'r taliad drwy gofnodi a chyflwyno taenlen i'r swyddog cefnogol i'w gweithredu. Yn ogystal, gwiriwyd bod ffurflen gais gefnogol wedi cael ei chwblhau gan y swyddogion yma drwy holi y rheolwyr llinell am gopi o'r ffurflenni. Derbyniwyd 9/12 o'r ffurflenni hyn gyda 3 o reolwyr heb ymateb i'r cais.

4.4 Gwelwyd mai ond un apêl a dderbyniwyd yn ystod y gweithrediad taliadau bonws ac ymddengys bod y cais wedi cael ei drin yn briodol, yr ymgeisydd wedi derbyn ymateb a hynny o fewn amserlen briodol.

4.5 Dengys o sampl o daliadau bonws a wiriwyd bod y taliadau yn drethadwy ac wedi cael eu trin yn gywir yn y system gyflogau.

4.6 Cynhaliwyd gwiriadau am daliadau dyblyg wrth weithredu ar geisiadau a dderbyniwyd gan y Cyngor. O ran adnabod dyblygiadau gyda chynghorau eraill a'r Bwrdd Iechyd, adroddwyd bod y data wedi cael ei lwytho i system "Emyr" gan Lywodraeth Cymru, ac adnabuwyd cryn dipyn o ddyblygiadau, gyda'r rhan fwyaf ohonynt yn rai Iechyd.

4.7 Cadarnhawyd bod cais addasedig am ad-daliad wedi cael ei gyflwyno i LC ym Mawrth 2022 yn dangos y ffigyrau terfynol yn dilyn cais hwyr gan un o'r darparwyr allanol am daliadau NI a Phensiwn ychwanegol. Cadarnhawyd bod y cais terfynol wedi cynnwys addasiadau taliadau dyblyg a'r elfen gweinyddiaeth.

4.8 Gwelwyd bod y taliadau wedi cael eu cysoni yn ôl i'r cyfriflyfr ac ymddengys bod y cais terfynol wedi'i gyflwyno'n gywir ac yn gyfan h.y. yn cynnwys yr holl cyfansymiau/costau sydd wedi cael eu talu allan i'r ymgeisydd yn ôl cysoniad.

4.9 O'r gwiriadau taliadau dyblyg, adnabuwyd ac anfonebwyd 9 o ddyledion i'r ymgeisydd/darparwyr allanol. Gwelwyd bod 4/9 o'r anfonebau wedi cael eu talu yn llawn gyda'r gweddill yn parhau gyda balans yn sefyll ar y system dyledwyr y Cyngor (ar 20/06/2022).

Atodiad 4

## TALIADAU YCHWANEGOL I WEITHWYR GOFAL

### 1. Cefndir

1.1 Ar y 10fed o Chwefror 2022, cyhoeddodd y Llywodraeth mewn datganiad ysgrifenedig y bydd taliad ychwanegol i staff gofal cymdeithasol er mwyn adlewyrchu cyflog byw gwirioneddol. Cyhoeddwyd bod y taliad yn berthnasol i weithwyr cofrestredig mewn cartrefi gofal ac ym maes gofal cartref, yn y gwasanaethau oedolion a phlant a hefyd i Gynorthwywyr Personol ariannir drwy Daliad Uniongyrchol. Gwneir y taliad i staff gofal cymdeithasol a oedd yn cael eu cyflogi mewn rôl cymwys ar 31 Mawrth 2022 a'r rhai a ddechreuodd mewn rôl cymwys rhwng 1 Ebrill 2022 a 30 Mehefin 2022.

1.2 Telir swm gros o £1,498 sydd yn golygu y bydd gweithwyr gofal cymdeithasol ar y gyfradd dreth sylfaenol yn derbyn oddeutu £1,000 yn eu pecyn cyflog ar ôl didyniadau. Mae’r taliad ar gael mewn un taliad neu mewn rhandaliadau misol ac yn cael ei weinyddu gan awdurdodau lleol ar ran Lywodraeth Cymru.

### 2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod trefniadau addas mewn lle ar gyfer gweinyddu taliadau ychwanegol i weithwyr gofal. Er mwyn cyflawni hyn, ‘roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio sampl o geisiadau gan sicrhau bod trefniadau priodol mewn lle ar gyfer eu dilysu cyn eu talu a’u bod wedi’u gweinyddu yn unol â chyfarwyddiadau a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru. Adroddir ar ganlyniad yr archwiliad mewn dau rhan; Rhan 1 yn dilyn dilysu a thalu ceisiadau i weithwyr gofal hyd at mis Awst 2022 a bydd rhan 2 yn adrodd ar y drefn ad-hawlio arian yn ôl gan Lywodraeth Cymru ym mis Tachwedd 2022 er mwyn sicrhau cywirdeb a chyflawnder y gwaith, gan gynnwys adnabod ac ad-ennill unrhyw ceisiadau dyblyg ble’n berthnasol.

### 3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad – RHAN 1

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i’r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Sicrwydd | Disgrifiad |
|---|---|
| **UCHEL** | **Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion** |

### 4. Sgôr Risg Cyfredol

4.1 Mae risgiau’r archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Risg | Nifer |
|---|---|
| **UCHEL IAWN** | 0 |
| **UCHEL** | 0 |
| **CANOLIG** | 0 |
| **ISEL** | 1 |

**5. Prif Ddarganfyddiadau**

5.1 Gwelwyd bod cyfarwyddiadau wedi eu derbyn gan Lywodraeth Cymru a bod y Cyngor wedi eu dilyn wrth weinyddu'r taliadau ychwanegol i weithwyr Gofal ac yn unol a'r amserlen.

5.2 Gwelwyd bod ffurflenni cais wedi cael eu dosbarthu i ddarparwyr allanol ar gyfer adnabod eu gweithwyr sydd yn cymwys i'r taliad. Cymharwyd sampl yn ôl i'r cyfriflyfr a gwelwyd bod anghysondebau mewn rhai o'r ceisiadau gyda'r taliadau. Yn ogystal, ymddengys bod taliadau dyblyg a chais heb rif YG wedi cael ei gyflwyno i'w dalu. Cyflwynwyd taenlen o eithriadau i'r Swyddog Categori a Ddatblygu i'w gwirio ac i chadarnhau eu cywirdeb. Cadarnhawyd bod taliadau dyblyg wedi cael eu adnabod, a bod camau wedi'u cymryd i'w hadennill. Ar wahân i'r eithriadau sydd wedi cael ei hadnabod a'u gweithredu, gwelwyd crynodeb o'r taliadau i ddarparwyr allanol oedd yn cyd-fynd â'r cyfriflyfr a'r ffurflenni cais.

5.3 Nodir y bydd y cysoniadau yn cael eu cynnal gan y Cyfrifydd Grŵp er mwyn cyflwyno'r ffigyrau ar gyfer y cais ad-hawlio arian yn ôl gan Lywodraeth Cymru ym mis Medi 2022. Eglurodd y Swyddog Categori a Ddatblygu ei bod yn parhau i ddisgwyl am geisiadau hwyr am daliadau phensiwn a YG gan y darparwyr allanol. Eglurwyd bydd dau gais am ad-daliad yn cael eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru, un ar gyfer taliadau hyd Medi 2022 ac yr ail gais ar gyfer gweddill o'r taliadau ble mae'r ymgeiswyr wedi dewis i dderbyn taliad mewn rhandaliadau, yn cynnwys yr elfen phensiynau a YG. Bydd ail rhan o'r archwiliad felly yn cael ei gynnal yn dilyn yr ail gais am ad-daliad ar ôl Hydref 2022.

5.4 Derbyniwyd sicrwydd gan y Swyddog Categori a Datblygu mai y rheolwyr llinell sydd yn gyfrifol am ddilysu ac adnabod swyddogion mewnol sydd yn gymwys i'r taliadau ychwanegol felly gweithredir ar y ceisiadau a dderbynnir gan y rheolwyr llinell yn unig.

5.5 Dadansoddwyd gwybodaeth am daliadau staff oddi ar y cyfriflyfr a chytunwyd sampl yn ôl i'r restr o daliadau staff mewnol y Swyddog Categori a Datblygu. Gwelwyd o'r teitl swydd bod rhain yn swyddi perthnasol ac yn ymddangos yn gymwysedig i'r taliad.

**6. <u>Camau Gweithredu</u>**

**Mae'r Swyddog Categori a Datblygu wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:**

- **Cysoni a chyflwyno ffigyrau terfynol ar gyfer cais am ad-daliad i Lywodraeth Cymru cyn y dyddiad cau.**

## MEDDALWEDD GWYSTLO (RANSOMWARE)

### 1. Cefndir

1.1 Mae ymosodwyr meddalwedd gwystlo yn bygwth cyhoeddi neu cloi data personol dioddefwr os nad ydynt yn derbyn taliad penodol. Mae'r meddalwedd yn cloi mynediad at systemau neu yn amgryptio ffeiliau, ond nid oes sicrwydd caiff y data ei ryddhau os yw taliad yn cael ei wneud. Mae'r bygythiad i lywodraeth leol yn ddifrifol gan ystyried bod ymosodiadau dinistriol wedi eu cynnal ar Gyngor Hackney yn 2020.

### 2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod trefniadau addas mewn lle er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn amddiffyn ei hun yn erbyn ymosodiadau meddalwedd gwystlo ac yn gallu ymateb ac adfer yn effeithiol pe byddai ymosodiad o'r fath. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio polisïau a gweithdrefnau TG, gwirio trefniadau hyfforddi staff, rheolaeth data a rheolaeth risg.

### 3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Sicrwydd | Disgrifiad |
|---|---|
| **DIGONOL** | **Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach.** |

### 4. Sgôr Risg Cyfredol

4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Risg | Nifer |
|---|---|
| **UCHEL IAWN** | 0 |
| **UCHEL** | 0 |
| **CANOLIG** | 4 |
| **ISEL** | 0 |

**5. Prif Ddarganfyddiadau**

5.1 Nid oes un polisi penodol yn cwmpasu'r holl wybodaeth berthnasol am ymateb y Cyngor i ymosodiad meddalwedd gwystlo. Derbyniwyd gopïau o 3 polisi mewnol TG oedd yn berthnasol. Mae gwaith ar y gweill i gyfuno gwybodaeth a gwella'r Cynllun Ymateb i Ddigwyddiad gyda chymorth allanol. Mae'n bwysig bod dogfennau perthnasol i ymateb y Cyngor mewn argyfwng yn cael eu diweddaru neu eu hadolygu'n rheolaidd. Roedd 1 o'r 3 dogfen a wiriwyd heb cofnod o adolygiad ers Chwefror 2018.

5.2 Mae cefnogaeth digonol ar gael i'r Cyngor gan gyrff allanol mewn perthynas â pharatoi ar gyfer ac ymateb i ymosodiad meddalwedd gwystlo. Mae trefniadau priodol i sicrhau bod gwiriadau 'Penetration Testing' yn cael eu cynnal ar y Cyngor.

5.3 Nid oes gwiriadau yn cael eu cynnal ar drefniadau atal ymosodiad cwmnïau allanol sydd yn dal/prosesu data'r Cyngor. Cytunodd y Gwasanaeth buasai cynnal gwiriadau ar drefniadau atal ymosodiadau dalwyr/proseswyr allanol o ddata'r Cyngor yn reolaeth da er mwyn lliniaru'r risg perthnasol.

5.4 Mae llawer o wybodaeth a hyfforddiant priodol am ddiogelwch TG ar gael i staff. Wedi hyfforddiant diweddar ar draws y Cyngor gan gwmni 'Bob's Business', cynhaliwyd ymarferiad er mwyn asesu a gwella gwytnwch y Cyngor yn erbyn ymosodiadau 'Phising'. Gan weld y cyfraddau o staff oedd yn clicio ar linciau maleisus ffug yn ystod yr ymarferiad yn disgyn, o bosib oherwydd hyfforddiant, buasai'n fuddiol i fwy o staff y Cyngor gwblhau hyfforddiant diogelwch seibr.

5.5 Mae pwynt D8 yn y gofrestr risg gorfforaethol yn amlygu'r risg o ymosodiad seibr yn glir ac yn nodi'r camau sydd mewn lle er mwyn lliniaru'r risg.

5.6 Holiwyd y Pennaeth Cynorthwyol TG a'r Rheolwr Cydlynu Risg ac Yswiriant ynglŷn â threfniadau yswiriant y Cyngor ar gyfer ymosodiad seibr. Nid oes yswiriant o'r fath gan y Cyngor ar amser yr archwiliad. Mynegodd y Pennaeth Cynorthwyol TG ei fod yn rhywbeth sydd wedi ei ystyried yn y gorffennol ond efallai heb dderbyn ystyriaeth digonol. Cytunodd dylai ystyried a thrafod y gost a'r buddion o gael yswiriant o'r fath gyda swyddogion perthnasol.

**6. <u>Camau Gweithredu</u>**

**Mae'r Pennaeth Cynorthwyol Technoleg Gwybodaeth a'r Peiriannydd Diogelwch wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:**

- **Gweinyddwyr Systemau i wirio trefniadau atal ymosodiadau daliwyr/proseswyr allanol data'r Cyngor ac asesu eu ansawdd gyda chymorth y Peiriannydd Diogelwch.**
- **Sicrhau bod polisïau perthnasol yn cael eu hadolygu yn flynyddol neu pan fydd amgylchiadau yn newid (pa bynnag ddaw gyntaf).**
- **Sicrhau bod hyfforddiant diogelwch seibr ar gael i staff ble mae modd monitro pa staff sydd wedi ei gwblhau.**
- **Cynnal trafodaeth gyda swyddogion perthnasol i wirio anghenion y Cyngor am yswiriant ymosodiad seibr.**

# AD-DALIADAU TRETH CYNGOR

## 1 Cefndir

1.1 O fewn y flwyddyn ariannol 2021/22, casglodd y Cyngor oddeutu £93 miliwn o refeniw Treth Cyngor a gwnaethpwyd oddeutu £2.3 filiwn o ad-daliadau drwy gydol y flwyddyn.

1.2 Gall y gwasanaeth brosesu ad-daliad i unrhyw gyfrif ble mae credyd ar y cyfrif o ganlyniad i ordaliad gan y trethdalwr. Mae modd i'r trethdalwr wneud cais am ad-daliad Treth Cyngor neu mae'r system yn gweithredu ar hyn yn awtomatig ble caniateir h.y. pan mae cyfrif yn cael ei gau er mwyn clirio y credyd. Mae trethdalwyr yn derbyn ad-daliadau drwy BACS i'r cyfrif a daliwyd drwy debyd uniongyrchol neu drwy siec os nad yw cais am daliad drwy BACS wedi'i wneud.

## 2 Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod trefniadau priodol mewn lle ar gyfer gweinyddu ad-daliadau Treth Cyngor. Roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio sampl o ad-daliadau a wnaethpwyd yn ystod blwyddyn ariannol 2022/23 er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu gweithredu yn briodol, yn unol â rheoliadau ariannol y Cyngor, a bod trywydd archwilio digonol i'w cefnogi.

## 3 Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Sicrwydd | Disgrifiad |
|---|---|
| **DIGONOL** | **Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach.** |

## 4 Sgôr Risg Cyfredol

4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Risg | Nifer |
|---|---|
| **UCHEL IAWN** | 0 |
| **UCHEL** | 0 |
| **CANOLIG** | 1 |
| **ISEL** | 0 |

**5. Prif Ddarganfyddiadau**

5.1 Gwelwyd bod ad-daliadau Treth Cyngor yn cael eu gweithredu yn rheolaidd gyda swyddogion yn rhagweithiol pan ddaw i glirio balansau credyd a gynhyrchwyd ar y system trethi, Capita sef 'Academy Revenues'.

5.2 Gwelwyd bod trywydd archwilio ar y system Capita, neu dogfennaeth cefnogol ar system ffeilio DIP ar gyfer pob credyd a gynhyrchwyd ar y system, gan gynnwys trosglwyddiadau o fil i fil a throsglwyddiadau o gyfrif i gyfrif. Cadarnhawyd bod hawl prosesu trosglwyddiadau o gyfrif i gyfrif wedi cael ei gyfyngu at uwch swyddogion yn unig.

5.3 Cadarnhawyd nad oedd trosglwyddiadau rhwng systemau wedi digwydd h.y. o system trethi domesdig i system annomestig drwy wirio sampl o adroddiadau o drosglwyddiadau cafodd eu creu yn ystod 2021/22.

5.4 Cytunwyd sampl o daliadau BACS i'r rhediad BACS / adroddiadau Academy a sampl o daliadau gan gynnwys ad-daliadau siec oddi ar adroddiad ct6370a i'r cyfriflyfr a chysoniadau'r gwasanaeth, oedd yn ymddangos yn briodol. O'r ad-daliadau a wiriwyd, ni welwyd symiau yn uwch na'r 'remmittence advice' a gynhyrchwyd.

5.5 Gwiriwyd hawliau staff ar gyfer mewnbynnu manylion taliadau BACS. Eglurwyd yr Ymgynghorydd Systemau Refeniw bod 'unrhyw aelod staff sydd â'r hawl i greu ad-daliad (ac â hawl mewnbynnu manylion banc ar gyfer debyd uniongyrchol) hefyd yn gallu creu a setio fyny ad-daliadau BACS ar y system'.

5.6 Cadarnhawyd bod paramedr wedi ei setio ar gyfer adnabod symiau uchel o daliadau ar y system h.y. mae'r adroddiad 'awdurdodi' wythnosol yn amlygu pob un sydd dros £1,000'. Mynegodd y Ymgynghorydd Systemau Refeniw fel un o'r pedwar swyddog sydd â hawl cymeradwyo'r adroddiad o ad-daliadau i'w dalu, bydd yn mynd drwy'r adroddiad ad-daliadau wythnosol, gan daro golwg mwy o ran enwau sydd ar y cyfrifon a'u cymharu i'r credydwr a manylion banc sydd wedi'u sefydlu rhag unrhyw anghysondebau. Oherwydd y nifer o ad-daliadau dros £1,000 sydd yn cael eu creu bellach, nid yw'n ymarferol cynnal gwiriadau a ddilysu'r holl ad-daliadau cyn awdurdodi'r taliadau.

5.7 Mynegodd y Rheolwr Trethi gall drethdalwyr fod gyda'r gallu i gyflwyno dalu ei hunain drwy 'Open Banking' a phortal hunanwasanaeth yn y dyfodol, sy'n rhyddhau'r gwasanaeth o'r broses sefydlu taliadau ac yn lliniaru'r risg o brosesu ad-daliadau annilys a thwyllodrus. Am y tro, cytunwyd y Rheolwr Trethi a'r Ymgynghorydd Systemau Refeniw, wrth ystyried yr adnoddau a meddylfryd 'Ffordd Gwynedd', i ymddiried yn y staff gan dderbyn bod elfen o risg yn parhau. Mae'r Archwiliwr yn derbyn ymateb gan y Gwasanaeth Treth Cyngor ac felly nid oes cynllun gweithredu wedi'i gynllunio.

Atodiad 7

**DIOGELWCH TACSIS**

## 1. Cefndir

1.1 Mae Gwasanaeth Trwyddedu Tacsis Cyngor Gwynedd yn gyfrifol am benderfynu os yw ymgeisydd neu ddeilydd trwydded presennol yn unigolyn addas a phriodol i ddal trwydded gyrrwr/gweithredwr cerbyd hurio preifat a/neu gerbyd hacni, yn ogystal â phrosesu ceisiadau am drwyddedau cerbyd.

## 2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod trefniadau addas mewn lle ar gyfer trwyddedu tacsis i sicrhau diogelwch defnyddwyr. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio fod sampl o geisiadau ers Mehefin 1af 2021 wedi eu prosesu yn unol â'r meini prawf a'r Polisi Trwyddedu ar gyfer Hurio Preifat a Cherbydau Hacni 2014, a bod gwiriadau priodol wedi eu cynnal ar gerbydau.

## 3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Sicrwydd | Disgrifiad |
|---|---|
| **CYFYNGEDIG** | **Er bod rheolaethau mewn lle, mae angen gwella cydymffurfiaeth â'r rheolaethau a/neu gyflwyno rheolaethau newydd i leihau'r risgiau mae'r Cyngor yn agored iddynt.** |

## 4. Sgôr Risg Cyfredol

4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Risg | Nifer |
|---|---|
| **UCHEL IAWN** | 0 |
| **UCHEL** | 2 |
| **CANOLIG** | 1 |
| **ISEL** | 0 |

**5. Prif Ddarganfyddiadau**

5.1 O'r sampl o 28 cais, nid oedd y dystiolaeth ddisgwyliedig wedi ei dderbyn ar gyfer 50% o'r ceisiadau, gyda gwiriadau ATGC, gwiriadau CThEM a tystysgrifau gwasanaeth datgelu a gwahardd (DBS) ar goll. Cadarnhaodd Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd (Amgylchedd) fod y swyddogion perthnasol a'r Tîm Gweinyddol yn gyfrifol am atodi pob dogfen gyda'r ceisiadau perthnasol ar system 'Tascomi', gan ychwanegu fod y dogfennau yn debyg o fod wedi eu derbyn ond heb eu atodi. Yn ogystal, gwelwyd fod un cais newydd am drwydded wedi ei ganiatáu er fod y tystysgrif DBS yn hynach 'na 3 mis oed, gyda un cais newydd am drwydded wedi ei brosesu heb gofnod fod taliad wedi ei dderbyn. Eglurwyd bod y gwasanaeth wedi bod o dan bwysau sylweddol dros y flwyddyn diwethaf.

5.2 Ni welwyd tystiolaeth fod 5 gyrrwr â gyflwynodd cais newydd am drwydded wedi cwblhau cwrs Diogelu. Cadarnhawyd nad oedd hwn yn ofyniad mandadol ar hyn o bryd, ond y byddai yn y dyfodol. Mae'r gwasanaeth felly yn gofyn i weld y tystysgrifau, ond yn parhau i brosesu ceisiadau os nad oes tystysgrif yn cael ei gyflwyno ar hyn o bryd.

5.3 Detholwyd sampl o 30 cais (7.7%) ar gyfer eu gwirio yn fanwl. Ni welwyd fod y tystiolaeth disgwyliedig wedi ei dderbyn ar gyfer sawl cais, gyda dogfennau cofrestru, tystysgrifau MOT a dogfennau yswiriant ar goll. Gwelwyd fod un cais wedi ei gymeradwyo er fod y dogfennau yswiriant atodwyd gyda'r gais yn cadarnhau fod y polisi wedi dod i ben. Derbyniwyd y cais ar 5ed o Fai, 2022, gyda'r polisi wedi dod i ben ers Mehefin 14eg, 2021.

5.4 Oherwydd pwysau gwaith a lefelau isel o staff, ni dderbyniwyd gwybodaeth mewn perthynas â sawl gwiriad di-rybydd roedd y gwasanaeth wedi eu cynnal yn y flwyddyn diwethaf er mwyn sicrhau fod deilyddion yn gweithredu fel y disgwyl. Fodd bynnag, gwelwyd cofnodion yr ymweliad diweddaraf. Gwelwyd fod y gwasanaeth wedi ymateb a gweithredu yn brydlon i'r honiad o gerbyd anaddas yn cael ei ddefnyddio i dywys plant i'r ysgol. Gyda cadarnhad Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd (Amgylchedd) fod dau drwydded wedi eu hatal yn ddiweddar, un yn dilyn canlyniad bositif i brawf cyffuriau, ac yr ail oherwydd achos diogelu difrifol, yn tystio fod y gwasanaeth yn cosbi unrhyw ddeilydd trwydded sydd dim yn gweithredu yn unol â'r rheolau.

**6. <u>Camau Gweithredu</u>**

**Mae'r gwasanaeth wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:**

- **Sicrhau bod swyddogion perthnasol â'r Tîm Gweinyddol yn derbyn ac atodi'r dogfennau cyfredol perthnasol, i'r ceisiadau ar system 'Tascomi' drwy atgoffa'r staff o'r gweithdrefn, ac y Rheolwr i wirio cofnodion ar hap yn reolaidd er mwyn sicrhau gwelliant parhaus.**
- **Sicrhau bod y staff perthnasol yn derbyn y taliad llawn gyda'r dderbynneb wedi atodi i'r cais am drwydded cyn ei phrosesu drwy atgoffa'r staff o'r gweithdrefn.**
- **Parhau i lunio polisi newydd ynghyd â ddarparu'r hyfforddiant priodol er mwyn sicrhau cysondeb yn y drefn prosesu trwyddedau yrru ar draws Wynedd.**

Atodiad 8

# TALIADAU CYMORTH CYNTAF

## 1. Cefndir

1.1 Mae staff sydd wedi'i dynodi fel cymhorthyddion cyntaf yn derbyn lwfans o £8 y mis gan y Cyngor. Mae cyfrifoldeb arnynt i ymateb i ddigwyddiad yn y swyddfa ble fod angen cymorth cyntaf. Mae'n rhaid iddynt gadw eu tystysgrif yn gyfredol a sicrhau bod yr offer angenrheidiol ganddynt yn y gweithle.

## 2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod trefniadau priodol mewn lle i weinyddu taliadau cymorth cyntaf gan sicrhau mai swyddogion cymwysedig yn unig sy'n derbyn y taliadau. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio cymwysterau cymorth cyntaf sampl o swyddogion sydd yn derbyn taliadau, yn ogystal â gwirio trefniadau rheoli y gweithwyr yma.

## 3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Sicrwydd | Disgrifiad |
|---|---|
| **DIGONOL** | **Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach.** |

## 4. Sgôr Risg Cyfredol

4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Risg | Nifer |
|---|---|
| **UCHEL IAWN** | 0 |
| **UCHEL** | 0 |
| **CANOLIG** | 3 |
| **ISEL** | 0 |

## 5. Prif Ddarganfyddiadau

5.1 Mynegai Gweithdrefn Cymorth Cyntaf, "bydd pob cymhorthydd cyntaf yn mynychu cwrs cymorth cyntaf tri diwrnod ac yna cwrs adnewyddu dau ddiwrnod pob tair blynedd". Gwiriwyd sampl o 9 aelod o staff oedd yn derbyn taliadau cymorth cyntaf ar amser yr archwiliad. Roedd 8 allan o 9 aelod o staff wedi derbyn hyfforddiant llawn 3 diwrnod neu gwrs adnewyddu 2 ddiwrnod yn y 3 mlynedd diwethaf. Roedd 1 aelod o staff wedi parhau i dderbyn taliadau er eu bod heb dderbyn hyfforddiant cymorth cyntaf ers 2015.

5.2 Mae trefn golau traffig wedi ei sefydlu o fewn y Modiwl Datblygu Staff. Mae hyn yn dangos hyfforddiant cymorth cyntaf staff gyda chylch gwyrdd, ambr neu goch wrth ei ymyl. Mae gwyrdd yn golygu hyfforddiant dilys, ambr yn golygu bod angen ei adnewyddu yn fuan a choch yn golygu bod yr unigolyn yn hwyr yn mynychu cwrs adnewyddu. Mae'n bosib rhedeg adroddiad o'r wybodaeth yma. Mynegodd y Swyddog Cefnogol Dysgu a Datblygu buasai defnyddio'r adroddiad yma yn fuddiol i sicrhau bod hyfforddiant staff yn gyfredol ac nad oes taliadau yn cael eu gwneud i staff sydd bellach yn anghymwys.

5.3 Yn dilyn Covid, mae llawer o staff wedi newid eu trefn gwaith i weithio o adref yn barhaol. Os nad ydynt yn y swyddfa, nid yw'r staff ar gael i gynnig cymorth cyntaf. Mae gwaith wedi ei gynnal i sicrhau nad oes aelodau o staff yn derbyn lwfans cymorth cyntaf os ydynt yn gweithio o adref. Mae trefniadau gwaith unigolion yn gallu newid ac dylai adolygiadau achlysurol cael eu cynnal o leoliadau gwaith cymhorthyddion cyntaf.

5.4 Gwiriwyd sampl o bosteri a blychau cymorth cyntaf staff. Gwelwyd bod y posteri yn gyfredol ac wedi eu diweddaru i arddangos pa staff sydd ar gael fel gymhorthyddion cyntaf. Mae'r holl wybodaeth am gymhorthyddion cyntaf a'u lleoliadau hefyd ar gael ar y mewnrwyd cymorth cyntaf. Cymharwyd y wybodaeth yma yn erbyn yr hyn ar y posteri a gwelwyd bod un aelod o staff yn parhau wedi ei henwi ar y fewnrwyd oedd ddim ar y posteri bellach. Dylid sicrhau bod y fewnrwyd yn cynnig y wybodaeth mwyaf cyfredol phosib. Gwelwyd bod cynnwys y blychau cymorth cyntaf yn briodol.

## 6. Camau Gweithredu

**Mae'r Arweinydd Tîm Swyddfeydd a'r Swyddog Cefnogol Dysgu a Datblygu wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:**

- **Rhedeg adroddiadau MoDS yn gyfnodol er mwyn gwirio pa staff sy'n gymwys am daliadau, gan derfynu taliadau staff sydd heb adnewyddu eu hyfforddiant.**
- **Cynnal adolygiadau achlysurol o leoliad gwaith cymhorthyddion cyntaf a therfynu taliadau staff os ydynt yn newid i weithio o adref yn barhaol.**
- **Sicrhau bod y mewnrwyd cymorth cyntaf yn gyfredol.**

Atodiad 9

# DYLETSWYDDAU ECONOMAIDD GYMDEITHASOL 2021

## 1. Cefndir

1.1 Nôd y ddyletswydd a ddaeth i rym ar y 1af o Ebrill 2021 yw annog gwell prosesau o wneud penderfyniadau strategol, sy'n rhoi dyletswydd ar yr Awdurdod i ystyried anghydraddoldeb sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol..

## 2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd gwirio pa gamau sydd wedi eu rhoi mewn lle ar gyfer cyflawni'r ddyletswydd o ddydd i ddydd. Gwneir hyn drwy wirio pa ddata economaidd-gymdeithasol sydd wedi ei gasglu ar gyfer llywio penderfyniadau strategol, yr hyfforddiant sydd mewn lle i swyddogion ac aelodau, ac asesiadau sydd wedi eu gwneud er mwyn ystyried anghydraddoldeb. Mae'r archwiliad yma yn ail-ymweld â'r maes archwiliwyd yn ystod 2021-22, ble cytunwyd nad oedd digon o amser wedi mynd heibio er mwyn gallu ffurfio barn ar y cydymffurfiaeth â'r ddeddf.

## 3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Sicrwydd | Disgrifiad |
|---|---|
| **DIGONOL** | **Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach.** |

## 4. Sgôr Risg Cyfredol

4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Risg | Nifer |
|---|---|
| **UCHEL IAWN** | 0 |
| **UCHEL** | 0 |
| **CANOLIG** | 3 |
| **ISEL** | 0 |

## 5. Prif Ddarganfyddiadau

5.1 Er mwyn cynorthwyo swyddogion i ystyried y nodweddion cydraddoldeb wrth lunio polisïau, crëwyd templed ffurflen asesiad effaith newydd ar y cyd gydag Rhwydwaith Cydraddoldeb Sector Gyhoeddus Gogledd Cymru, sy’n adeiladu ar y templed sydd wedi bod mewn lle ers rhai blynyddoedd. Bydd yr asesiad terfynol yng Ngwynedd yn ddogfen electroneg, a bydd digon o gymorth integredig ar gael i’r defnyddiwr wrth gwblhau yr adrannau er mwyn sicrhau ansawdd a chysondeb. Yn anffodus, mae’r amserlen ar gyfer mabwysiadu’r ffurflen newydd wedi llithro sawl tro, gyda’r oediad diweddaraf yn deillio o adnoddau TG yn ailgyfeirio at greu system pwrpasol ar gyfer ffoaduriaid Wcrain. Felly, ar amser yr archwiliad, mae ffurflen asesiad interim yn parhau mewn lle.

5.2 Gwiriwyd adroddiadau a’r dogfennau atodol a gyflwynwyd i’r Cabinet ers i’r ddyletswydd ddod i rym ar y 1af o Ebrill 2021. Fel adroddwyd yn adroddiad archwilio mewnol Rhagfyr 2021, gwelwyd bod rhai o’r adroddiadau cynnar a gyflwynwyd wedi defnyddio hen dempled asesiad effaith yn hytrach na’r fersiwn interim sydd wedi ei addasu i gynnwys yr elfen economaidd-gymdeithasol. Fodd bynnag gwelwyd erbyn hyn bod y fersiwn interim yn cael ei ddefnyddio ar gyfer penderfyniadau strategol. Mae’n ddibynnol ar y cyd-destun os yw’r penderfyniadau yn wirioneddol strategol neu beidio, ac os oes amheuaeth mae’r Cyngor o blaid ymgorffori’r ddyletswydd.

5.3 Dylai asesiadau effaith gael eu cefnogi gan ddata er mwyn cyfiawnhau y datganiadau. Nid yw ystadegau ar ben eu hunain yn debygol o fod yn ddigonol ac felly er mwyn dod i ddeall profiad bywyd trigolion gwahanol, ardaloedd a mudiadau perthnasol, mae’r Gwasanaeth yn ymgysylltu gyda mudiadau er mwyn casglu barn a phrofiadau grwpiau o unigolion efo nodweddion gwarchodedig, a bydd y data yn rhan o’r ffurflen asesiad terfynol electroneg.

5.4 Mae hyfforddiant wedi ei ddarparu i swyddogion ac i Aelodau, a crëwyd teilsen penodol ar gydraddoldeb ar fewnrwyd y Cyngor sy’n cynnwys manylion am y ddyletswydd newydd. Fodd bynnag, roedd y niferoedd o Aelodau mynychwyd yn isel, ac felly mae bwriad cynnal rhagor. Addaswyd y modiwl e-ddysgu a darparwyd cwrs o'r enw ‘Eich Cyfrifoldeb dros Gydraddoldeb’ oedd yn cynnwys rhan benodol ar y drefn asesu effaith.

## 6. <u>Camau Gweithredu</u>

**Mae’r Ymgynghorydd Cydraddoldeb wedi ymrwymo i weithredu’r camau canlynol i liniaru’r risgiau a amlygwyd:**

- **Parhau i godi ymwybyddiaeth ymysg Aelodau a rheolwyr o’r ddogfen asesiad effaith cydraddoldeb newydd**
- **Ymgysylltu gyda mudiadau er mwyn casglu barn a phrofiadau grwpiau o unigolion efo nodweddion gwarchodedig**
- **Defnyddio offeryn tracio cynnydd y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol er mwyn cynorthwyo y Cyngor i fodloni gofynion y ddyletswydd, ac i fynd y tu hwnt i’r gofynion i sicrhau newid ystyrlon yn y ffordd y gwneir penderfyniadau pwysig.**

Atodiad 10

# CYNLLUN FFOADURIAID WCRÁIN

## 1. Cefndir

1.1 Yn sgîl ymosodiad Rwsia ar Wcráin mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi sefydlu cynllun Cartrefi i Wcráin i helpu pobl i ddod i'r DU os ydynt yn ffoi rhag y rhyfel ac os nad oes ganddynt gysylltiadau teuluol yn y DU. Cychwynnodd y Cynllun ar 18 Mawrth 2022, ac erbyn hyn mae dros 200 o ffoaduriaid wedi cyrraedd Gwynedd.

## 2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod trefniadau addas mewn lle i gefnogi'r cynllun Cartrefi i Wcráin. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio pa drefniadau mae'r Cyngor wedi eu sefydlu er mwyn sicrhau bod ffoaduriaid Wcráin yn cael y cymorth priodol, gan gynnwys sicrhau bod swyddogion atebol wedi cael eu penodi, bod archwiliadau sylfaenol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) a bod archwiliadau diogelu yn cael eu cynnal ar y noddwyr. Yn ogystal, gwiriwyd cymorth ategol megis addysg a budd-daliadau, a'r trefniadau ariannol gan gynnwys gwirio bod y gwasanaeth yn dilyn gweithdrefnau ariannol yn unol â'r gofynion. Nid yw'r archwiliad yn cwmpasu y cynllun Teuluoedd o Wcráin sy'n ran o gynllun uwch-noddwr Llywodraeth Cymru.

## 3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Sicrwydd | Disgrifiad |
|---|---|
| **DIGONOL** | **Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach.** |

## 4. Sgôr Risg Cyfredol

4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Risg | Nifer |
|---|---|
| **UCHEL IAWN** | 0 |
| **UCHEL** | 0 |
| **CANOLIG** | 2 |
| **ISEL** | 0 |

## 5. Prif Ddarganfyddiadau

5.1 Mae gofyn i awdurdodau lleol gynnal archwiliadau sylfaenol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) ar gyfer pob oedolyn sy'n noddi. Mewn achosion lle mae'r pobl sy'n cyrraedd yn blant neu'n oedolion agored i niwed, bydd angen archwiliad DBS manwl gyda rhestrau gwahardd. Fe wiriwyd sampl o 84 o noddwyr a gwelwyd bod 25 gyda statws DBS Cam 1 (Cais yn cael ei dderbyn a'i ddilysu), 2 noddwr efo statws Cam 2 (gwiriadau yn erbyn Cyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu (PNC)) a 45 noddwr efo statws Cam 3 (gwiriadau yn erbyn y Rhestrau Gwahardd Oedolion a Phlant). Gwelwyd bod 4/84 yn parhau i ddisgwyl am DBS gyda 3 yn disgwyl i'r ffoaduriaid cyrraedd y wlad ac un wedi'i leoli ers 6ed o Hydref 2022.

5.2 Mae angen i eiddo noddwyr gael eu harchwilio gan y Cyngor am ddiogelwch. O'r sampl o 84 o noddwyr â wiriwyd, gwelwyd bod 60 eiddo wedi derbyn archwiliad, 18 yn disgwyl am archwiliad a 6 wedi tynnu allan o'r cynllun. Gwelwyd bod 4 eiddo yn disgwyl archwiliad ers mis Mai 2022, 3 ers mis Mehefin a 1 ers mis Medi a'r gweddill heb ffoaduriaid wedi cael eu lleoli. O'r rhestr o eiddo sydd ddim wedi derbyn archwiliad eto, gwelwyd bod rhain i gyd gyda gwiriadau DBS a chyswllt ymweliad lles wedi'u cynnal ers cael eu leoli.

5.3 Mae'r Cyngor yn cydweithio gyda'r Groes Goch i ddarparu taliad interim o £200 y pen ar gardiau 'pre-paid' am gostau cynhaliaeth i ffoaduriaid unwaith iddynt gyrraedd eu llety. Yn ystod yr archwiliad, nid oedd y cyfanswm o daliadau £200 yn cysoni yn ôl i'r cod gwariant Ffoaduriaid Wcráin yn y cyfriflyfr, ond cafwyd eglurhad bod mwyafrif o'r arian wedi ei dalu drwy cod gwariant yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd, a bod trefniadau mewn llaw ar gyfer adnabod y taliadau a'u cywiro/ad-dalu y cod gwariant.

5.4 Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol ddarparu lle mewn ysgol i'r plant, a chynorthwyo teuluoedd i gael gwaith a/neu unrhyw fudd-daliadau maent yn gymwys i. Gwelwyd bod ymweliadau lles yn cael eu trefnu unwaith mae'r unigolyn yn cyrraedd Gwynedd a bydd swyddog cyfrifol yn holi ynglŷn ag addysg i'r plant a budd-daliadau neu gwaith yn ystod yr ymweliad.

## 6. <u>Camau Gweithredu</u>

**Mae'r Arweinydd Tîm Gorfodaeth (Tai) ac Arweinydd Busnes Tîm Wcrain wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:**

- **Dyrannu achosion ar gyfer archwilio, cwblhau'r archwiliadau'n amserol ac uwch lwytho'r arolwg i'r system CRM cyn gynted â phosibl wedi eu cwblhau.**
- **Sicrhau bod noddwyr yn derbyn, cwblhau a chyflwyno dadleniad, a sicrhau bod noddwyr sydd heb ddadleniad wedi ei adnabod a gwneud cyswllt cyn gynted â phosibl.**

Atodiad 11

## CRONFA'R DEGWM

### 1. Cefndir

1.1 Mae Cronfa'r Degwm yn deillio o Ddeddf Eglwysi Cymru 1914. Mae Cyngor Gwynedd yn gweinyddu'r gronfa ac yn dosbarthu llog o'r gronfa ar ffurf grantiau yn flynyddol i elusennau cofrestredig yng Ngwynedd er mwyn hyrwyddo a chefnogi gweithgareddau. Mae modd i sefydliadau megis Eisteddfodau lleol, gweithgareddau celfyddydol, mudiadau addysg, hamdden a chwaraeon, cadwriaethol ac elusennau sy'n cefnogi pobl wael neu bobl anabl geisio am y grant. Mae'n bosib gwneud cais am unrhyw swm, ond bydd grantiau unigol yn dueddol i fod rhwng £100 a £3,000.

### 2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd cynnal gwiriad annibynnol o ddatganiad o gyfrifon Cronfa'r Degwm am y flwyddyn ariannol 2021/22, yn unol â gofynion y Comisiwn Elusennau.

### 3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Sicrwydd | Disgrifiad |
|---|---|
| UCHEL | **Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion.** |

### 4. Prif Ddarganfyddiadau

4.1 Yn unol â gofynion y Comisiwn Elusennau, mae'n rhaid cynnal archwiliad annibynnol o'r cyfrifon os yw incwm blynyddol y gronfa dros £25,000. Buddsoddwyd arian y gronfa er mwyn denu llog, ac felly rhagorwyd y trothwy incwm ym mlwyddyn ariannol 2021/22.

4.2 Gellir datgan sicrwydd o gywirdeb datganiad o gyfrifon Cronfa'r Degwm ar gyfer y flwyddyn ariannol 2021/22. Yn seiliedig ar y profion a gynhaliwyd, gwelwyd fod trywydd archwilio priodol i'r ffigyrau.

Atodiad 12

**CYFRIFON AMGUEDDFA LLOYD GEORGE**

**1. Cefndir**

1.1 Mae Amgueddfa Lloyd George a chartref ei blentyndod, Highgate, Llanystumdwy, yn olrhain bywyd cyn Brîf Weinidog y DU. Gweinyddir yr amgueddfa, sy'n elusen gofrestredig, gan Gyngor Gwynedd gyda chymorth Cyfeillion yr Amgueddfa sy'n cefnogi a chynorthwyo datblygiad yr Amgueddfa a'i defnydd addysgiadol. Oherwydd bod yr elusen wedi uchafu trothwy incwm o £25,000 drwy gyfraniad Cyngor Gwynedd, rhaid cyflwyno cyfrifon ac adroddiad blynyddol yr ymddiriedolwyr i'r Comisiwn Elusennau am 2021-22, gan gynnwys adroddiad archwiliwr annibynnol o'r cyfrifon.

**2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad**

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd cwblhau adroddiad archwiliwr annibynnol o gyfrifon yr Amgueddfa am y flwyddyn ariannol 2021-22, gan roi sicrwydd bod yr hyn a gyflwynir i'r Comisiwn Elusennau yn gywir. Gwnaethpwyd hyn drwy eu cysoni gyda chyfriflyfr y Cyngor, gan sicrhau bod yr holl drafodion yn berthnasol i'r Amgueddfa.

**3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad**

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Sicrwydd | Disgrifiad |
|---|---|
| UCHEL | **Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion.** |

**4. Prif Ddarganfyddiadau**

4.1 Darganfuwyd fod y cyfrifon ar gyfer 2021-22 yn briodol ac felly cwblhawyd adroddiad yr archwiliwr annibynnol er mwyn datgan hynny.

Atodiad 13

# CYNLLUN RHEOLI TRAETHAU

## 1. Cefndir

1.1 Mae gan Gwynedd arfordir a thraethau sy'n denu trigolion lleol a nifer o ymwelwyr, yn enwedig dros fisoedd yr haf. O ganlyniad i natur traethau, mae diogelwch bywydau yn faes o risg uchel sydd wedi ei adnabod felly ar y gofrestr risg gorfforaethol, lle mae angen i Gyngor Gwynedd liniaru risgiau cyn gymaint a sy'n ymarferol.

## 2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod rheolaethau addas a chymesurol mewn lle er mwyn diogelu ymwelwyr i draethau Gwynedd, drwy liniaru neu amlygu risgiau, yn ogystal â sicrhau fod prosesau mewn lle i ymateb i ddigwyddiadau. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio Cynllun Rheoli Traethau Gwynedd gan sicrhau bod asesiadau risg cyflawn a chyfredol mewn lle, ac archwilio pa gamau sydd mewn lle i liniaru'r risgiau.

## 3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Sicrwydd | Disgrifiad |
|---|---|
| DIGONOL | **Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach.** |

## 4. Sgôr Risg Cyfredol

4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Risg | Nifer |
|---|---|
| UCHEL IAWN | 0 |
| UCHEL | 0 |
| CANOLIG | 4 |
| ISEL | 0 |

## 5. Prif Ddarganfyddiadau

5.1 Mae Cynllun Rheoli Traethau Gwynedd yn gynllun byw a baratowyd yn 2019 am gyfnod hyd at 2022.

5.2 Gan fod yr arfordir mor eang, mae yna ddibyniaeth ar y cyhoedd i gynorthwyo'r Gwasanaeth Morwrol drwy adrodd ar unrhyw ddiffygion a pheryglon neu unrhyw ddigwyddiadau ar arfordir a thraethau Gwynedd. Er nad yn drefn swyddogol, mae'n effeithiol er mwyn i'r Gwasanaeth Morwrol adnabod a gweithredu ar ddiffygion beryglon mor fuan â phosib. Byddai'n werth ystyried os oes modd manteisio ar hyn ymhellach er mwyn cryfhau rheolaethau a lliniaru risgiau, yn enwedig tu allan i'r tymor.

5.3 Yn hanesyddol, mae Cyngor Gwynedd wedi bod yn ceisio am wobr y Faner Las er mwyn hysbysu safon eu traethau a denu ymwelwyr. Erbyn heddiw nid yw'r Gwasanaeth yn ei flaenoriaethu. Fodd bynnag mae'r safonau a anelir tuag atynt gan y Gwasanaeth yn gyfwerth a gofynion y Faner Las. Mae'r broses o ymgeisio am statws y Faner Las yn gostus a hir wyntog i'r Cyngor ac mae'n ofynnol gan Cadwch Cymru'n Daclus (CCD) i ymgeiswyr gyflwyno asesiadau risg mewn ffurf penodol. Mae Gwynedd yn defnyddio system asesu risg mewnol a golygir bydd cydymffurfio gyda gofynion CCD yn dyblygu gwaith ac ychwanegu elfennau sydd ddim yn ychwanegu gwerth.

5.4 Mae argyfyngau yn anochel o bryd i'w gilydd. Mae goblygiadau hyn yn amrywio o'r angen am ddarpariaeth cymorth cyntaf sylfaenol i alw am y gwasanaethau brys. Mae'n hanfodol nad yw staff yn peryglu eu hunain ar unrhyw achlysur er pa mor anodd yw'r sefyllfa ac os oes unrhyw bwysau gan y cyhoedd.

5.5 Mae'r Gwasanaeth yn ceisio addasu er mwyn lleihau'r defnydd o arian parod wrth dalu i gael mynediad ac i lansio. Mae traeth Morfa Bychan yn delio gyda llawer o arian parod yn ystod y tymor a byddai'r gallu i ddefnyddio system talu PDQ/POS dibynadwy yn fwy buddiol ac effeithlon gan hefyd leihau'r risg a'r amser treulir gan staff i ddelio gydag arian parod. Y bwriad yw darparu trydan a mynediad 'Wi-Fi' yng nghaban y staff.

5.6 Oherwydd natur y maes mae'n anorfod bod risgiau yn parhau er gwaethaf pob ymdrech i'w lliniaru. Mae'r gwasanaeth yn ceisio goruchwylio'r prif draethau poblogaidd yn ystod y tymor ond gyda'r nos a gweddill y flwyddyn nid yw hyn yn ymarferol nac yn bosib o ran adnoddau. Dim ond cynghori defnyddwyr ac ymwelwyr yn hytrach na eu gorfodi sy'n bosib ac o ganlyniad mae elfen o risg yn parhau yn anochel. O ganlyniad nid yw'n briodol darparu lefel sicrwydd uchel yn y maes hwn er nad yw hyn yn adlewyrchiad o drefniadau a pherfformiad y gwasanaeth.

## 6. <u>Camau Gweithredu</u>

**Mae'r Gwasanaeth Morwrol wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:**

- **Diweddaru ac addasu Cynllun Rheoli Traethau ar gyfer tu hwnt i ddiwedd 2022.**
- **Llunio trefn i gyflwyno holiadur yn targedu defnyddwyr traeth er mwyn derbyn barn ar ansawdd a materion diogelwch traethau ac adolygu trefniadau o weithredu yn brydlon ar ddiffygion a pheryglon.**
- **Ystyried os oes gwerth i Gyngor Gwynedd barhau i geisio am Statws y Faner Las.**
- **Ymchwilio ymhellach i'r posibilrwydd o gynyddu'r defnydd o system talu PDQ gan leihau'r ddibyniaeth ar ddelio gyda arian parod.**

Atodiad 14

**CRONFEYDD YSGOL (RHAN 2)**

**1. Cefndir**

1.1 Mae paragraff 16.22.1 o gyfansoddiad y Cyngor yn nodi:

*'Lle mae Swyddog y Cyngor, yn rhinwedd ei swydd, yn gyfrifol am arian neu nwyddau sydd yn eiddo Cronfa sy'n gysylltiedig ag un o sefydliadau'r Cyngor, ac amcan y gronfa yn cyd-fynd â'r gwasanaeth a ddarperir gan y Cyngor:*

*(a) Rhaid i'r Swyddog gadw'r holl arian neu nwyddau sy'n eiddo'r gronfa answyddogol ar wahân i rai'r Cyngor.*

*(b) Rhaid cadw cyfrifon iawn, a'u cadw ar wahân i rai'r Cyngor.*

*(c) Rhaid i'r corff sy'n rheoli'r gronfa benodi person cymwys yn archwiliwr, i archwilio gweithgareddau'r gronfa yn flynyddol, ac i adrodd i'r corff sy'n rheoli'r gronfa neu i'r Llywodraethwyr yn achos ysgolion neu golegau.*

*(ch) Rhaid i'r adroddiadau blynyddol hyn fod ar gael i'r Archwilwyr Mewnol eu harchwilio os gofynnant amdanynt.*

**2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad**

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod trefniadau rheoli a gweinyddu addas mewn lle ar gyfer cronfeydd ysgol. Er mwyn cyflawni hyn, detholwyd sampl o ysgolion, a chynhaliwyd archwiliad llawn ar y cyfrifon hyd at 2021-22.

**3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad**

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Sicrwydd | Disgrifiad |
|---|---|
| **CYFYNGEDIG** | **Er bod rheolaethau mewn lle, mae angen gwella cydymffurfiaeth â'r rheolaethau a/neu gyflwyno rheolaethau newydd i leihau'r risgiau mae'r gwasanaeth yn agored iddynt.** |

**4. Sgôr Risg Cyfredol**

4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Risg | Nifer |
|---|---|
| **UCHEL IAWN** | 0 |
| **UCHEL** | 1 |
| **CANOLIG** | 0 |
| **ISEL** | 0 |

## 5. Prif Ddarganfyddiadau

5.1 Detholwyd sampl o 14 ysgol gan sicrhau trawstoriad o ysgolion uwchradd, cynradd, arbennig a dilynol. Roedd balansau'r cronfeydd yn amrywio, ond roedd swm sylweddol o arian gydag un o'r ysgolion. Ni fydd yr ysgolion yn derbyn adroddiad unigol yn dilyn yr archwiliad yma ond maent wedi eu hysbysu o'r gwendidau perthnasol i'w cronfa.

5.2 Roedd gan 9 o'r ysgolion bolisi cronfeydd ysgol gyda'r rhan fwyaf ohonynt yn defnyddio'r polisi cyfredol sef 'Canllawiau i Lywodraethwyr a Phrifathrawon ar Reolaeth Cronfeydd Ysgol 2010'. Er mai hwn yw'r polisi cyfredol, mae'n dyddio yn ôl i 2010 ac nid yw'n cwmpasu prosesau sydd fwy cyffredin heddiw, e.e. taliadau ar-lein a defnydd o gardiau banc, yn ogystal â'r drefn ynglŷn â chau cronfeydd. Adnabuwyd bod angen adolygu'r polisi yn ystod archwiliad Cronfeydd Ysgol (Rhan 1) ond nid yw hyn wedi digwydd hyd yma.

5.3 Wrth archwilio'r cyfrifon, darganfuwyd nad oedd gan sawl ysgol lyfr arian, sef cofnod llawn o incwm a gwariant y cyfrif. Gwelwyd achosion eraill ble roedd cofnodion o'r incwm a gwariant yn cael eu copïo o'r datganiadau banc yn hytrach nag yn cael eu cofnodi pan dderbynnir, neu pryd gwnaethpwyd y taliad. Er bod gan y mwyafrif o'r ysgolion drefniadau cysoni misol, nid oedd y trefniadau yma'n ddigonol ym mhob achos.

5.4 Gwelwyd bod y cronfeydd yn cael eu defnyddio ar gyfer y disgyblion yn bennaf, ond darganfuwyd ambell i wariant cynhennus. Yn ogystal, gwelwyd bod rhai ysgolion yn derbyn arian parod ond nid oeddynt yn bancio'r holl arian gan eu bod yn eu defnyddio ar gyfer ad-daliadau i staff am adnoddau.

5.5 Mae sawl ysgol eisoes wedi, neu yn dymuno symud i ffwrdd o ddefnyddio sieciau drwy fabwysiadu bancio ar-lein neu gardiau banc. Ymddengys bod gan yr ysgolion drefniadau priodol mewn lle ar gyfer hyn ond am un lle nid oedd unrhyw wahaniaeth dyletswyddau.

5.6 Nid oedd gan sawl ysgol drefn o gynnal archwiliad o'u cronfeydd, sydd i fod i gael ei gynnal gan berson cymwys ac annibynnol. Derbyniwyd tystiolaeth gan 5 ysgol yn unig eu bod yn cyflwyno'r cyfrifon archwiliedig i'r Corff Llywodraethu, gyda rhai eraill heb eu harchwilio ers sawl blwyddyn.

## 6. <u>Camau Gweithredu</u>

**Mae'r swyddogion perthnasol wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:**

- **Codi ymwybyddiaeth Penaethiaid cynradd newydd o'r gronfa ysgol a'r trefniadau gweinyddu priodol.**
- **Cynnig cymorth ychwanegol i weinyddu cofnodion cronfeydd yr ysgolion cynradd sydd eisoes yn derbyn cymorth gan y swyddogion cefnogi ysgol.**
- **Dosbarthu'r fersiwn cyfredol o'r polisi 'Canllawiau i Lywodraethwyr a Phrifathrawon ar Reolaeth Cronfeydd Ysgol 2010' i'r ysgolion.**

Atodiad 15

**DARPARIAETH ADDYSG ÔL-16 2021-22**

## 1. Cefndir

1.1 Mae Cyngor Gwynedd yn derbyn cyllid gan Lywodraeth Cymru er mwyn cyflenwi darpariaeth addysg ôl-16, sef cyllid o £3.7m ar gyfer darpariaeth chweched dosbarth mewn ysgolion prif ffrwd ynghyd a hyd at £180k ar gyfer dysgu oedolion. Dyrannwyd cyllid ychwanegol o £300k i Wynedd er mwyn darparu oriau dysgu ychwanegol ar gyfer dysgwyr llawn amser. Darparwyd yr arian ychwanegol hwn sef 'Cyllid Adferiad a Chynnydd Dysgwyr' i gydnabod bod dysgwyr wedi profi tarfu ar eu dysgu o ganlyniad i bandemig y coronafeirws ac angen cymorth ychwanegol yn ystod blwyddyn academaidd 2021-22 er mwyn aros ar eu llwybr addysgol a chwblhau eu cymhwyster yn llwyddiannus.

## 2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau cywirdeb tystysgrif dyraniad 'Chweched Dosbarth A Dysgu Oedolion yn y Gymuned' ar gyfer y flwyddyn 2021-22.

## 3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Sicrwydd | Disgrifiad |
|---|---|
| UCHEL | **Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion.** |

## 4. Prif Ddarganfyddiadau

4.1 Gellir datgan sicrwydd o gywirdeb tystysgrif dyraniad 'Chweched Dosbarth A Dysgu Oedolion yn y Gymuned' ar gyfer y flwyddyn 2021-22. Yn seiliedig ar y profion a gynhaliwyd, gwelwyd fod trywydd archwilio priodol i'r ffigyrau ac y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion.

Atodiad 16

**CARTREF PLAS GWILYM**

1. **Cefndir**

1.1 Mae cartref Plas Gwilym wedi ei leoli ym mhentref Penygroes ac yn cynnig gofal canolradd byr neu hir dymor, yn ogystal â gofal seibiant i hyd at 27 o breswylwyr dros 55 oed.

**2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad**

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod trefniadau addas mewn lle ar gyfer rheoli a chynnal y cartref yn briodol ac yn unol â rheoliadau a safonau perthnasol. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio bod trefniadau'r cartref yn ddigonol o ran gweinyddiaeth a staffio, rheolaeth gyllidebol, caffael nwyddau a derbyn incwm, iechyd a diogelwch, a monitro perfformiad ynghyd â sicrhau bod y defnyddwyr gwasanaeth a'u heiddo'n cael eu diogelu.

**3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad**

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Sicrwydd | Disgrifiad |
|---|---|
| CYFYNGEDIG | **Er bod rheolaethau mewn lle, mae angen gwella cydymffurfiaeth â'r rheolaethau a/neu gyflwyno rheolaethau newydd i leihau'r risgiau mae'r gwasanaeth yn agored iddynt.** |

**4. Sgôr Risg Cyfredol**

4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel y ganlyn:

| Lefel Risg | Nifer |
|---|---|
| UCHEL IAWN | 0 |
| UCHEL | 7 |
| CANOLIG | 5 |
| ISEL | 0 |

**5. Prif Ddarganfyddiadau**

5.1 Nid yw cynlluniau gofal preswylwyr yn derbyn adolygiad rheolaidd. Gwelwyd nad oedd 1 cynllun wedi ei adolygu ers Awst 2021. O'r sampl o 3 cynllun gofal gwiriwyd, ni welwyd restr o eiddo'r preswylwyr. Cadarnhaodd y Rheolwr fod y cynlluniau yn y broses o gael eu ddiweddaru.

5.2 Nid yw pob aelod staff yn derbyn goruchwyliaeth chwarterol fel y disgwyl. O'r sampl o 4 aelod staff, gwiriwyd eu cofnodion goruchwylio a gwelwyd fod 2 wedi eu goruchwylio o fewn y 3 mis diwethaf, gyda'r gweddill heb eu goruchwylio ers Mehefin 2021.

5.3 Ni welwyd fod gan y cartref restr eiddo cyfredol.

5.4 Nid oedd y llyfr ymwelwyr wedi cael ei gwblhau yn briodol h.y. llofnodi'r llyfr wrth adael y cartref a chadarnhau amser gadael.

5.5 Nid yw pob prawf tân yn cael ei gynnal fel y disgwyl.

5.6 Nid yw pob asesiad risg yn cael ei adolygu'n flynyddol. Gwelwyd tystiolaeth fod rhai asesiadau risg generig ac asesiadau'r preswylwyr heb eu hadolygu ers Mai 2021.

5.7 Cyn yr ymweliad, cafwyd gwybod na all y cartref ddod o hyd i £160 o arian poced un o'r preswylwyr, a drwgdybiwyd ei fod wedi cael ei ddwyn. Gwelwyd nad oedd arian poced wedi ei wirio ers Ebrill 2022 cyn adnabod yr anghysondeb ym mis Awst.

5.8 Detholwyd sampl o 10 aelod staff y cartref ar gyfer gwirio eu cofnodion hyfforddiant. O'r 10, 7 yn unig sydd ag hyfforddiant 'Symud a Thrin' cyfredol, gydag ond 3 wedi cwblhau hyfforddiant 'Cymorth Cyntaf' yn y 3 mlynedd diwethaf. Gwelwyd mai 3 yn unig sydd gyda hyfforddiant 'Diogelu' cyfredol, ac 1 yn unig sydd wedi cwblhau modiwlau e-ddysgu mandadol y Cyngor.

5.9 Ni welwyd unrhyw dystiolaeth fod staff y cartref wedi darllen a mabwysiadu'r Polisi Diogelu Oedolion Bregus. Cadarnhaodd y Rheolwr nad oedd yn cadw cofnod o hyn.

5.10 O'r 10 aelod staff ble gwiriwyd eu cofnodion hyfforddiant, gwelwyd fod 5 yn parhau i ddarparu meddyginiaeth er nad ydynt wedi cwblhau prawf cymhwysedd yn y flwyddyn diwethaf.

5.11 Nid yw niferoedd o feddyginiaeth sy'n bresennol yn y cartref yn cytuno gyda cyfanswm y gwiriadau stoc ar bob achlysur.

5.12 Gwelwyd nad oedd y cartref wedi gweithredu ar pob maes gwella yn dilyn yr ymweliad diweddaraf gan AGC. Cadarnhaodd y Rheolwr fod prinder staff wedi golygu fod rhai tasgau, megis adolygu cynlluniau gofal yn parhau heb eu gweithredu.

## 6. Camau Gweithredu

**Mae'r Rheolwr wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:**

- **Adolygir cynlluniau gofal yn amserol, gan gynnwys nodiadau dyddiol.**
- **Sicrhau fod pob aelod staff yn derbyn goruchwyliaeth pob 3 mis.**
- **Sicrhau fod rhestr eiddo'r cartref yn gyfredol ac yn derbyn adolygiad blynyddol.**
- **Sicrhau fod arian poced preswylwyr yn cael ei wirio o leiaf pob 3 mis a'i gadw dan glo ar pob achlysur, gan ystyried cyfyngu mynediad.**
- **Sicrhau fod rhestrau o eiddo preswylwyr yn cael eu cadw yn eu cynlluniau gofal.**
- **Atgoffa staff fod angen i pob ymwelydd lenwi'r manylion yn y llyfr ymwelwyr.**
- **Sicrhau fod profion tân yn cael eu cynnal yn amserol.**
- **Sicrhau fod asesiadau risg, preswylwyr ac generig, yn derbyn adolygiad blynyddol.**
- **Sicrhau fod pob aelod staff y cartref yn cwblhau hyfforddiant Symud Thrin, Cymorth Cyntaf, ac Diogelu, yn ogystal â modiwlau e-ddysgu mandadol y Cyngor.**
- **Pob aelod staff i ddarllen polisi Diogelu Oedolion Bregus ac arwyddo i ddatgan hynny.**
- **Sicrhau fod pob aelod staff sydd yn gyfrifol am ddarparu meddyginiaeth yn derbyn prawf cymhwysedd blynyddol.**
- **Atgoffa staff i fod yn drylwyr wrth gynnal gwiriadau stoc meddyginiaeth, gan adrodd unrhyw anghysondebau yn syth i'r Rheolwr.**

Atodiad 17

**CARTREF HAFOD MAWDDACH**

**1. Cefndir**

1.1 Mae Cartref Hafod Mawddach yn cynnig gofal parhaol a thymor byr i hyd at 23 o breswylwyr sydd yn ei chael yn anodd byw yn annibynnol o fewn y gymuned ac sydd wedi eu hasesu fel angen cymorth. Mae cynlluniau ar y gweill i agor Uned Dementia newydd o fewn y cartref yn y dyfodol agos bydd yn cynnig gofal i hyd at 8 preswylydd ychwanegol.

**2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad**

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod trefniadau addas mewn lle ar gyfer rheoli a chynnal y cartref yn briodol ac yn unol â rheoliadau a safonau perthnasol. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio bod trefniadau'r cartref yn ddigonol o ran gweinyddiaeth a staffio, rheolaeth gyllidebol, caffael nwyddau, derbyn incwm, iechyd a diogelwch, monitro perfformiad ynghyd â sicrhau bod y defnyddwyr gwasanaeth a'u heiddo'n cael eu diogelu.

**3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad**

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Sicrwydd | Disgrifiad |
|---|---|
| **CYFYNGEDIG** | **Er bod rheolaethau mewn lle, mae angen gwella cydymffurfiaeth â'r rheolaethau a/neu gyflwyno rheolaethau newydd i leihau'r risgiau mae'r gwasanaeth yn agored iddynt.** |

**4. Sgôr Risg Cyfredol**

4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Risg | Nifer |
|---|---|
| **UCHEL IAWN** | 0 |
| **UCHEL** | 5 |
| **CANOLIG** | 6 |
| **ISEL** | 0 |

**5. Prif Ddarganfyddiadau**

5.1 Nid yw Cynllun Gofal pob preswylydd yn derbyn adolygiad misol fel y disgwyl.

5.2 Nid yw pob aelod staff yn derbyn goruchwyliaeth pob 3 mis fel y disgwyl. O'r 4 cofnodion goruchwyliaeth gwiriwyd, 1 yn unig sydd wedi eu goruchwylio o fewn y 3 mis diwethaf, gyda'r 3 aelod staff arall heb eu goruchwylio ers 2021.

5.3 Nid yw'r taflenni amser a chyflwynwyd i'r Gwasanaeth Cyflogau wedi eu cwblhau fel y disgwyl ar pob achlysur. Nid oedd yr oriau a hawlir ar y daflen amser yn cytuno gyda'r 'rota' gwaith.

5.4 Nid yw cofrestr eiddo'r cartref wedi ei adolygu o fewn y flwyddyn ddiwethaf fel y disgwyl.

5.5 Gwelwyd nad oedd profion tân yn cael eu cynnal ar y llwybrau dianc nac y diffoddwyr tân yn reolaidd, ble mae disgwyl iddynt cael eu cynnal yn wythnosol.

5.6 Nid yw asesiadau risg generig y cartref nac asesiadau risg y preswylwyr yn cael eu hadolygu'n flynyddol.

5.7 Nid yw pob aelod staff wedi cwblhau hyfforddiant Diogelu, gyda sawl gweithiwr yn parhau heb gwblhau modiwlau E-ddysgu mandadol.

5.8 Disgwylir i brofion cymhwysedd meddyginiaeth cael eu cynnal yn flynyddol. O'r sampl o 10 aelod staff ddetholwyd, 6 yn unig sydd yn darparu meddyginiaeth. Er fod y 6 wedi cwblhau hyfforddiant llawn meddyginiaeth o fewn y 3 mlynedd diwethaf, 1 yn unig sydd wedi cwblhau prawf cymhwysedd yn y flwyddyn diwethaf.

5.9 Nid oedd llofnod staff ar wiriadau stoc meddyginiaeth ar pob achlysur.

5.10 Gwelwyd bod cyfnodau ble nad oedd tymheredd yr ystafell meddyginiaeth nac yr oergell wedi eu cofnodi, ble mae disgwyl eu cynnal yn ddyddiol.

5.11 Darganfyddwyd yn ystod yr ymweliad nad ydi'r Clerc yn cynnwys y Rheolwr yn yr e-byst i'r gwasanaeth Taliadau er mwyn sicrhau cywirdeb a chymeradwyo gwariant.

**6. <u>Camau Gweithredu</u>**

**Mae'r swyddogion perthnasol wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:**

- **Sicrhau fod cynlluniau gofal yn cael eu hadolygu'n fisol.**
- **Sicrhau fod pob aelod staff yn derbyn goruchwyliaeth pob 3 mis.**
- **Sicrhau fod rhestr eiddo'r cartref yn gyfredol ac yn cael ei adolygu'n flynyddol.**
- **Atgoffa aelodau staff o'r angen i lofnodi taflenni amser ar phob achlysur er mwyn cadarnhau cywirdeb, ac unrhyw oriau ychwanegol yn cael eu cofnodi ar y 'rota' er mwyn cysondeb.**
- **Atgoffa staff fod angen i phob ymwelydd i'r cartref lenwi'r manylion perthnasol yn y llyfr ymwelwyr, ac y staff i gynnal unrhyw wiriadau ychwanegol.**
- **Sicrhau fod profion tân ar y llwybrau dianc ac ddiffoddwyr tân yn cael eu cynnal yn amserol.**
- **Sicrhau fod asesiadau risg, preswylwyr ac generig, yn derbyn adolygiad blynyddol.**
- **Sicrhau fod staff yn cwblhau'r modiwlau hyfforddiant e-ddysgu mandadol.**
- **Sicrhau fod pob aelod staff sydd yn gyfrifol am ddarparu meddyginiaeth yn derbyn prawf cymhwysedd blynyddol.**
- **Cofnodi tymheredd yr ystafell feddyginiaeth ac yr oergell yn ddyddiol.**
- **Sicrhau fod y Rheolwr yn cael ei chynnwys mewn pob e-bost i'r gwasanaeth Taliadau ble gofynnir i anfoneb cael ei dalu.**

Atodiad 18

**CARTREF BRYN BLODAU**

## 1. Cefndir

1.1 Mae Cartref Bryn Blodau yn cynnig gofal i hyd at 41 o oedolion. Mae hyn yn cynnwys Uned Dementia gydag 8 gwely, yn ogystal â chyfleusterau gofal canolraddol, sy'n darparu gofal dros dro ac adsefydlu. Nodir yn ystod yr archwiliad nad oedd y cartref yn gweithredu i gapasiti llawn, gyda 9 gwely gwag. Daeth yn amlwg bod prinder staff wedi arwain at lawer o'r diffygion adnabuwyd yn yr archwiliad.

## 2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod trefniadau addas mewn lle ar gyfer rheoli a chynnal y cartref yn briodol ac yn unol â rheoliadau a safonau perthnasol. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio bod trefniadau'r cartref yn ddigonol o ran gweinyddiaeth a staffio, rheolaeth gyllidebol, caffael nwyddau, derbyn incwm, iechyd a diogelwch, monitro perfformiad, ynghyd â sicrhau bod y defnyddwyr gwasanaeth a'u heiddo'n cael eu diogelu.

## 3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Sicrwydd | Disgrifiad |
|---|---|
| **CYFYNGEDIG** | **Er bod rheolaethau mewn lle, mae angen gwella cydymffurfiaeth â'r rheolaethau a/neu gyflwyno rheolaethau newydd i leihau'r risgiau mae'r gwasanaeth yn agored iddynt.** |

## 4. Sgôr Risg Cyfredol

4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Risg | Nifer |
|---|---|
| **UCHEL IAWN** | 0 |
| **UCHEL** | 5 |
| **CANOLIG** | 5 |
| **ISEL** | 0 |

## 5. Prif Ddarganfyddiadau

5.1 Nid yw Cynllun Gofal pob preswylydd yn derbyn adolygiad misol fel y disgwyl.

5.2 Nid yw pob aelod staff yn derbyn goruchwyliaeth chwarterol fel y disgwyl.

5.3 Gwelwyd nad oedd profion wedi eu cynnal ar y larwm tân, goleuadau argyfwng, llwybrau dianc nac y diffoddwyr tân yn reolaidd.

5.4 Nid yw asesiadau risg pob preswylydd yn cael eu hadolygu'n flynyddol. Gwiriwyd sampl o 3 asesiad risg, a gwelwyd dim ond 1 sydd wedi eu hadolygu yn y flwyddyn ddiwethaf gyda'r gweddill yn parhau heb eu hadolygu ers Awst 2021.

5.5 Nid yw pob aelod staff gyda hyfforddiant cyfredol.

5.6 Disgwylir i brofion cymhwysedd meddyginiaeth cael eu cynnal yn flynyddol. O'r sampl o 8 aelod staff detholwyd, 5 yn unig sydd yn darparu meddyginiaeth. O'r rhain, 3 yn unig sydd wedi cwblhau prawf cymhwysedd yn y flwyddyn diwethaf.

5.7 Nid yw niferoedd o feddyginiaeth sy'n bresennol yn y cartref yn cytuno gyda cyfanswm y gwiriadau stoc ar bob achlysur.

5.8 Gwelwyd fod sawl aelod staff yn parhau heb fabwysiadu'r Polisi Meddyginiaeth.

5.9 Ni welwyd unrhyw dystiolaeth fod staff y cartref wedi mabwysiadau'r Polisi Diogelu Oedolion Bregus, nac fod copi o'r polisi yn y cartref.

5.10 Nid yw'r cartref yn cadw cofnod o'r holl oriau mae staff yn ei hawlio ar eu taflenni amser.

5 <u>**Camau Gweithredu**</u>

**Mae'r swyddogion perthnasol wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:**

- **Staff yn cael eu atgoffa bod angen cwblhau adolygiad misol yn eu cynlluniau gofal. Bydd hyn pob 3 mis yn y cynlluniau gofal newydd sydd yn cael eu gweithredu ar hyn o bryd gan y Rheolwr Cynorthwyol.**
- **Sicrhau fod pob aelod staff yn derbyn goruchwyliaeth pob 3 mis.**
- **Trafod gyda staff bod profion tân yn cael eu cynnal yn amserol, gan newid y diwrnod mae'r profion yn cael eu cynnal fel i beidio disgyn ar ŵyl banc. Profion tân yn cael eu monitor gan y tîm rheoli yn rheolaidd.**
- **Asesiadau risg preswylwyr yn derbyn adolygiad blynyddol ac yn cael eu diweddaru fel ran o'r cynlluniau gofal newydd.**
- **Sicrhau fod pob aelod staff gyda hyfforddiant Symud a Thrin, Cymorth Cyntaf, ac Diogelu cyfredol, yn ogystal â chwblhau modiwlau e-ddysgu mandadol.**
- **Sicrhau fod pob aelod staff sydd yn gyfrifol am ddarparu meddyginiaeth yn derbyn prawf cymhwysedd blynyddol.**
- **Atgoffa staff i fod yn drylwyr wrth gynnal gwiriadau stoc meddyginiaeth, gan adrodd unrhyw anghysondebau yn syth i'r Rheolwr. Gwiriadau stoc wythnosol yn cael eu cynnal ac archwiliadau misol yn cael eu cynnal gan reolwyr.**
- **Sicrhau fod pob aelod staff yn darllen y polisi Diogelu Oedolion Bregus, ac y Polisi Meddyginiaeth gan arwyddo i ddatgan hynny.**
- **Symud i gyflwyno taflenni amser misol sydd i'w gwirio yn wythnosol yn fanwl yn erbyn y rota waith gyda unrhyw anghysondebau yn cael eu hymchwilio.**
- **Sicrhau fod y Rheolwr yn cael ei chynnwys mewn pob e-bost i'r Gwasanaeth Taliadau ble gofynnir i anfoneb cael ei dalu**

# DEFNYDD ARIAN PAROD

## 1. Cefndir

1.1 Yn sgîl y pandemig sefydlwyd yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant a'r Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd drefn newydd i ddisodli'r hen gyfrifon 'Imprest' oedd mewn defnydd ar gyfer dosbarthu arian parod i'r llinell flaen. Bellach, mae'r swyddogion cyfrifol yn ddefnyddio cerdyn credyd Barclaycard i dalu'n uniongyrchol am nwyddau. Lle nad oes posib osgoi defnyddio arian parod fydd rhai swyddogion gyda'r hawl i godi arian parod o beiriannau 'twll yn wal' gyda cardiau credyd penodol. Fel rhan o gytundeb defnydd cardiau credyd y Cyngor, mae'r Adran Gyllid yn caniatáu'r unigolion sy'n gwneud cais am gerdyn i nodi os ydynt angen y cyfleuster codi arian parod gyda cyfiawnhad pam eu bod angen y cyfleuster hyn.

## 2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod trefniadau addas mewn lle ar gyfer gweinyddu defnydd arian parod drwy ddefnyddio cardiau credyd y Cyngor. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio sampl o gardiau credyd sydd â'r hawl i godi arian parod, ac archwilio'r trefniadau tu ôl i'r gweithdrefnau a sicrhau eu bod yn cydlynu â'r polisïau a chyfansoddiad y Cyngor. Yn ogystal, roedd yr archwiliad yn gwirio pa reolaethau monitro o'r defnydd cardiau credyd ac arian parod sydd mewn lle.

## 3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Sicrwydd | Disgrifiad |
|---|---|
| **DIGONOL** | **Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach.** |

## 4. Sgôr Risg Cyfredol

4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Risg | Nifer |
|---|---|
| **UCHEL IAWN** | 0 |
| **UCHEL** | 0 |
| **CANOLIG** | 3 |
| **ISEL** | 0 |

**5. Prif Ddarganfyddiadau**

5.1 Gwelwyd bod system Barclaycard Spend Management (BSM) yn adnabod trafodion codi arian parod a bod canran uchel o'r trafodion gyda derbynneb o dwll yn y wal wedi'i atodi er mwyn i'r gweinyddwr allu codio a chymeradwyo'r trafodyn ar y system.

5.2 Gwelwyd bod rheoliadau cardiau credyd yn cydymffurfio ag adran 16 o'r cyfansoddiad drwy ofyn am anfoneb/derbynneb ar gyfer dilysu gwariant ac adennill TAW. Fodd bynnag, mynegir adran 2.6 o'r rheoliadau cerdyn credyd '*Dylid defnyddio'r cerdyn ar wariant Cyngor Gwynedd yn unig,'* ond mae adran 16.20.33 o'r cyfansoddiad yn nodir '*Ni chaniateir unrhyw brynu preifat trwy ddefnyddio cerdyn credyd neu gerdyn talu o'r fath*.' Nid yw'r rheolaethau yn cyfeirio at ddefnydd arian parod a chyfrifoldebau hynny.

5.3 Mae swyddogion sydd yn cymeradwyo drwy'r system BSM yn gweithredu ar wahân i'r sawl un sydd yn rheoli'r arian parod, ac yn cymeradwyo gwariant cyn belled â bod derbynneb codi arian o dwll yn wal wedi'i atodi i'r BSM. Mae dilysu defnydd yr arian parod yn gyfrifoldeb y swyddogion sydd yn rheoli a gweinyddu'r arian. Er ni welwyd cyfarwyddiadau i gefnogi hyn yn y rheoliadau cardiau credyd.

5.4 Allan o'r 8 tîm o fewn adran Oedolion, gwelwyd ond 1 sydd wedi codi arian ym mlwyddyn ariannol 22/23 a gwelwyd bod derbynebau TAW i gefnogi'r gwariant. Allan o'r 10 tîm yn adran Plant, gwelwyd bod 7 wedi codi arian parod gyda 5 o'r timau heb gyflwyno derbynebau ac 1 yn unig sydd wedi cofnodi yr elfen TAW.

5.5 Nid oedd tystiolaeth bod yr elfen TAW o'r wariant arian parod wedi cael eu hadnabod ar gyfer eu adhawlio.

5.6 Mynegodd yr Uwch Dechnegydd Rheolaeth nad yw'n cynnal adolygiadau ar wariant cardiau credyd na ddefnydd y cardiau. Nid yw'n adnabod rhai sydd heb defnydd ar ôl cyfnod penodol a'r angen i gadw'r hawl codi arian parod all arwain at gamddefnydd o gardiau dylai bod wedi cael eu canslo.

**6. <u>Camau Gweithredu</u>**

**Mae'r adran Gyllid wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:**

- **Newid pwynt 2.6 o'r rheoliadau cardiau credyd i:-** *Yn unol ag adran 16.20.33 o'r Cyfansoddiad, dylid defnyddio'r cerdyn ar wariant Cyngor Gwynedd yn unig. Os defnyddir y cerdyn i wneud pryniannau personol mewn camgymeriad, yna mae'n rhaid adrodd hyn i'ch Rheolwr Llinell a hefyd i DesgBarclaycard@gwynedd.llyw.cymru i wneud trefniadau i ad-dalu'r Cyngor cyn gynted â phosib.*
- **Ychwanegu pwynt 4 newydd i'r Rheoliadau Cardiau Credyd, yn benodol ar gyfer y rhai sydd â hawl i godi arian parod.**
- **Cyfrifwyr yr adran Gyllid i sicrhau eu bod yn darparu canllawiau a sefydlu rheolaethau arian parod i'w gwasanaethau, monitro a chadw rheolaeth dosbarthiad arian parod.**
- **Monitro defnydd o gardiau unwaith y flwyddyn.**

Atodiad 20

# DEDDF LLYWODRAETH LEOL AC ETHOLIADAU (2021)

## 1. Cefndir

1.1 Mae'r Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (2021) yn sefydlu fframwaith deddfwriaethol newydd ar gyfer etholiadau, democratiaeth, llywodraethu a pherfformiad llywodraeth leol. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Brif Gynghorau a Chynghorau Tref a Chymuned yng Nghymru barhau i adolygu, drwy hunanasesu, i ba raddau y mae'n bodloni'r 'gofynion perfformiad', hynny yw, i ba raddau y maent yn gweithredu eu swyddogaethau yn effeithiol ac yn defnyddio'u hadnoddau yn economaidd, yn effeithiol ac effeithlon.

## 2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod Cyngor Gwynedd yn cwrdd â gofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) (2021) sy'n cyflwyno newidiadau a grymoedd llywodraethiant Llywodraeth Leol yng Nghymru. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio hunanasesiad a'r rhaglen waith, yn ogystal a gwirio adroddiadau a chofnodion pwyllgorau perthnasol er mwyn gwirio cydymffurfiaeth y Cyngor gyda'r Ddeddf.

## 3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Sicrwydd | Disgrifiad |
|---|---|
| UCHEL | **Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion.** |

## 4. Sgôr Risg Cyfredol

4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Risg | Nifer |
|---|---|
| UCHEL IAWN | 0 |
| UCHEL | 0 |
| CANOLIG | 0 |
| ISEL | 2 |

## 5. Prif Ddarganfyddiadau

5.1 Mae naw prif ran i'r Ddeddf sy'n berthnasol i Brif Gynghorau, Cynghorau Tref a Chymuned ac Awdurdodau eraill. Gwelwyd ar y cyfan bod y Cyngor yn cydymffurfio a'r Ddeddf yn unol â'r amserlen, a bod rhaglen waith yn cael ei diweddaru yn gyson.

5.2 Gwelwyd bod y Rhaglen Waith gweithredu Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (2021) wedi cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Hydref 2022 a bod y mwyafrif o'r camau gweithredu yn deillio o ddarpariaethau'r Ddeddf wedi cael eu cwblhau a'u cyflawni. Mae'r Rhaglen Waith yn rhoi trosolwg a sicrwydd ar y camau gweithredu a gwelwyd bod gwaith cyson yn cael ei baratoi er mwyn sicrhau bod strategaethau, cynlluniau a chanllawiau yn cael eu paratoi yn unol â'r amserlen.

5.3 Gwelwyd bod y Cyngor Llawn wedi mabwysiadu newidiadau ar y Cyfansoddiad, ond ni welwyd bod yr addasiadau yma wedi cael eu diweddaru ar dudalen y Cyfansoddiad sydd ar wefan y Cyngor.

## 6. <u>Camau Gweithredu</u>

**Mae'r Gwasanaethau Cyfreithiol a'r Adran Cefnogaeth Gorfforaethol wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:**

- **Bod y Cyfansoddiad yn cael ei ddiweddaru ar wefan y Cyngor yn sgil y newidiadau sydd wedi eu cymeradwyo.**
- **Sicrhau bod y Cynllun Deisebau, Strategaeth Cyfranogiad a'r Canllawiau Cyfansoddiad yn cael eu paratoi yn unol â'r amserlen.**

Atodiad 21

## DYCHWELYD CYFARPAR AELODAU

### 1. Cefndir

1.1 Yn dilyn etholiad Mai 2022, daeth cyfnod nifer o Aelodau Gwynedd fel cynrychiolwyr eu hetholaeth i ben. Fel unrhyw 'weithiwr' i'r Cyngor, mae disgwyl i Aelodau ddychwelyd unrhyw gyfarpar sydd yn eu meddiant sy'n eiddo i'r Cyngor.

### 2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod trefniadau addas mewn lle er mwyn rheoli asedau'r Cyngor sydd yng ngofal Aelodau. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio bod cofnod o pa asedau oedd gan yr aelodau a beth yw'r trefniadau mewn lle i sicrhau bod rhain yn dod yn ôl i eiddo'r Cyngor pan oedd aelodau'n gadael.

### 3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Sicrwydd | Disgrifiad |
|---|---|
| **DIGONOL** | **Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach.** |

### 4. Sgôr Risg Cyfredol

4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Risg | Nifer |
|---|---|
| **UCHEL IAWN** | 0 |
| **UCHEL** | 0 |
| **CANOLIG** | 1 |
| **ISEL** | 0 |

### 5. Prif Ddarganfyddiadau

5.1 Mae gan y rhan fwyaf o gyn-Aelodau docynnau parcio, cardiau adnabod ac asedau TG sy'n eiddo i'r Cyngor. Ni welwyd cofnod na thystiolaeth bod pob tocyn parcio a cherdyn adnabod wedi eu dychwelyd, felly ni ellir sicrhau bod rheolaethau priodol mewn lle i atal risg o'u camddefnydd. Fodd bynnag, mae rheolaethau effeithiol i sicrhau nad yw cardiau adnabod cyn-Aelodau yn gallu agor drysau wedi iddynt adael cyflogaeth y Cyngor. Gwiriwyd sampl o 10 cyn-Aelod a gwelwyd bod cardiau adnabod y 10 wedi eu canslo yn ôl adroddiad dderbyniwyd gan y Rheolwr Gwasanaeth Cefnogol Technoleg Gwybodaeth.

5.2 Allan o 82 o asedau TG, megis tabledi, disgwylir i'w dychwelyd neu eu prynu gan gyn-Aelodau, ar amser yr archwiliad mae 8 heb eu dychwelyd nac eu trefnu i'w prynu, yn ôl y gofrestr asedau a wiriwyd. Mae trefniadau mewn llaw i sicrhau bod yr asedau TG yma yn cael eu dychwelyd maes o law.

5.3 Mae'r gofrestr asedau cedwir yn un cynhwysfawr ac effeithiol gan ei fod yn bosib i adnabod statws dychwelyd unrhyw ased a'r unigolyn cyfrifol am yr ased yna.

5.4 Mae rheolaethau effeithiol i sicrhau nad oes gan gyn-Aelodau fynediad at systemau TG y Cyngor wedi iddynt adael. Wedi i'w cyflogaeth derfynu, bydd eu cyfrifon yn cael eu cau o fewn y system 'Active Directory' sydd yn eu rhwystro rhag cael mynediad at fewnrwyd a data y Cyngor.

5.5 Mae trefn o ddiogelu data effeithiol mewn lle. Mae pob ased sydd yn cael eu dychwelyd neu eu prynu yn gorfod cael eu cyflwyno i'r Gwasanaeth TG i gael eu glanhau o unrhyw ddata sydd arnynt. Mae'r asedau clir yma wedyn yn cael eu cadw gyda'r Gwasanaeth TG os ydynt yn cael eu dychwelyd ac yn cael eu rhoi i'r cyn-Aelodau os ydynt wedi eu prynu.

## 6. <u>Camau Gweithredu</u>

**Mae'r Rheolwr Gwasanaeth Democratiaeth a Iaith wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:**

- **Sicrhau bod cardiau adnabod a thocynnau parcio cyn-Aelodau yn cael eu dychwelyd a bod cofnod priodol o hyn.**

Atodiad 22

**HYFFORDDI AELODAU**

**1. Cefndir**

1.1 Mae Adran 7 o'r Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, yn nodi bod angen i awdurdodau lleol sicrhau eu bod yn darparu hyfforddiant a chyfleoedd rhesymol i'w haelodau, yn ogystal â rhoi'r cyfle i'w haelodau dderbyn adolygiad blynyddol o'u anghenion hyfforddi a datblygu.

1.2 Mae 'Fframwaith Datblygu Cynghorwyr Cymru' (Mai 2015) yn amlinellu'r medrau a'r wybodaeth angenrheidiol i aelodau awdurdodau lleol Cymru i gyflawni eu dyletswyddau. Fe luniwyd y fframwaith fel rhan o raglen ddatblygu broffesiynol parhaus ar gyfer aelodau, sydd yn cyd-fynd â Siarter Cynorthwyo a Datblygu Cynghorwyr Cymru.

**2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad**

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod trefniadau priodol mewn lle er mwyn cyflawni anghenion hyfforddiant aelodau newydd Cyngor Gwynedd yn dilyn etholiad Mai 2022. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu asesu'r drefn o adnabod a darparu hyfforddiant i aelodau newydd yn unol a'u hanghenion, yn ogystal â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.

**3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad**

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Sicrwydd | Disgrifiad |
|---|---|
| **DIGONOL** | **Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach.** |

**4. Sgôr Risg Cyfredol**

4.1 Mae risgiau'r archwiliad isod:

| Lefel Risg | Nifer |
|---|---|
| **UCHEL IAWN** | 0 |
| **UCHEL** | 0 |
| **CANOLIG** | 3 |
| **ISEL** | 0 |

**5. Prif Ddarganfyddiadau**

5.1 Cynhaliwyd 2 sesiwn anwytho i Aelodau yn dilyn etholiadau mis Mai 2022. Gwiriwyd cynnwys y sesiynau a gwelwyd eu bod yn cynnwys gwybodaeth elfennol bwysig i'r Aelodau yn ogystal â gweithrediadau megis arwyddo cytundebau a derbyn dyfeisiadau TG. Fodd bynnag, nid oes cofnod o'r presenoldeb ar gyfer y sesiynau.

5.2 Sefydlwyd mewnrwyd aelodau er mwyn canoli'r holl wybodaeth sydd angen ar aelodau. Mae'n syml i'w defnyddio ac yn gynhwysfawr. Gwelir yma wybodaeth am ddisgrifiadau rôl gwahanol a gwybodaeth am y rhaglen hyfforddiant a digwyddiadau sydd i ddod yn y dyfodol agos. Mae'r rhaglen hyfforddi wedi ei selio ar fframwaith anwytho CLlLC. Fodd bynnag, darganfuwyd nad oedd unrhyw wybodaeth am rolau o fewn y "deilsen" "Disgrifiad Rolau".

5.3 Mae trefniadau effeithiol i dderbyn adborth am hyfforddiant penodol trwy'r Modiwl Datblygu Staff (MoDS). Mae adborth am y rhaglen hyfforddi aelodau yn gyffredinol yn cael ei roi ger bron y Pwyllgor Gwasanaeth Democratiaeth. Fodd bynnag, nid oes trefn mewn lle i adnabod gofynion mwy manwl aelodau. Os oes diffyg penodol gan un aelod, nid oes platfform wedi ei sefydlu ar hyn o bryd iddynt gyflwyno'r broblem neu eu hangen am hyfforddiant. Trafodwyd hyn gyda'r swyddogion perthnasol a cytunwyd dylid sefydlu trefn sydd yn ei gwneud yn haws a chynt i aelodau fynegi eu anghenion hyfforddiant unigol. Mae cynlluniau mewn llaw i ddefnyddio holiaduron cyfnodol i wirio gofynion aelodau, er mwyn holi os oes unrhyw ofyn am hyfforddiant ganddynt ac i hyrwyddo'r ffaith bod y Swyddog Datblygu Aelodau ar gael os oes gan unrhyw aelod gais neu gwestiwn am hyfforddiant.

5.4 Cyflwynodd Cyngor Gwynedd gais i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) er mwyn ennill Breinlen, neu'r 'Siarter Aelodau', ac fe'i adnewyddwyd yn 2018. Mae gofyn i awdurdodau adnewyddu pob 3 mlynedd ar sail hunan-asesiad, ac mae ystyriaeth wedi ei roi er mwyn cyflwyno cais yn ystod 2022/23.

**6. <u>Camau Gweithredu</u>**

**Mae Swyddog Datblygu Aelodau a'r Rheolwr Gwasanaeth Democratiaeth ac Iaith wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:**

- **Sicrhau bod "Disgrifiad Rolau" yn weithredol ar Fewnrwyd Aelodau.**
- **Sicrhau bod modd gwirio a chefnogi unrhyw anghenion hyfforddiant unigol Aelodau yn rheolaidd.**
- **Cyflwyno cais i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru er mwyn adnewyddu'r Freinlen.**

Atodiad 23

**GRANT CYMORTH TAI**

**1. Cefndir**

1.1 Dyrannwyd hyd at £6.8 miliwn o grant i Gyngor Gwynedd gan Lywodraeth Cymru yn ystod 2021-22 fel rhan o gynllun Cymorth Tai. Mae'r cynllun yn comisiynu ac ariannu nifer o ddarparwyr i gynnig cymorth i unigolion bregus i gadw eu tenantiaeth ac osgoi digartrefedd, gyda'r nod o alluogi'r unigolion i fyw yn annibynnol drwy ddarparu gwasanaethau cefnogol yn gysylltiedig â thai. Gall y gwasanaeth gael ei ddarparu yng nghartref yr unigolyn neu mewn hostel, cartrefi gwarchodol, neu unrhyw dŷ lle ceir cefnogaeth. Mae'r cynllun yn rhoi cymorth i amrediad eang o bobl, megis pobl hŷn, pobl gyda phroblemau trais domestig, pobl mewn perygl o fod yn ddigartref, problemau iechyd meddwl, anghenion camddefnyddio sylweddau yn ogystal ag anabledd dysgu.

**2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad**

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau cywirdeb tystysgrif archwilio grant Cymorth Tai ar gyfer 2021-22, drwy wirio'r costau a hawliwyd, yn ogystal â sicrhau bod y Gwasanaeth wedi cydymffurfio ag amodau'r llythyr cynnig grant.

**3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad**

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Sicrwydd | Disgrifiad |
|---|---|
| **DIGONOL** | **Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach.** |

**4. Sgôr Risg Cyfredol**

4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Risg | Nifer |
|---|---|
| **UCHEL IAWN** | 0 |
| **UCHEL** | 0 |
| **CANOLIG** | 1 |
| **ISEL** | 0 |

**5. Prif Ddarganfyddiadau**

5.1 Gellir datgan sicrwydd o gywirdeb ffigyrau ariannol ar dystysgrif archwilio grant Cymorth Tai ar gyfer y flwyddyn ariannol 2021-22. Yn seiliedig ar y profion a gynhaliwyd, gwelwyd fod trywydd archwilio priodol i'r ffigyrau.

5.2 Mae'r tystysgrif archwilio yn gofyn i'r Archwiliwr Mewnol gadarnhau bod y gwariant yn briodol, ac yn cyfrannu tuag at gyflawni amcanion y grant, yn unol â gofynion y llythyr cynnig. Gan bod y grant yn ariannu taliadau i amryw o ddarparwyr gwasanaeth allanol, mae'r Cyngor fel rheol yn cynnal ymweliadau monitro er mwyn sicrhau priodoldeb y gwasanaeth a'r taliadau â wneir, ond oherwydd prinder staffio, ni gynhaliwyd y gwaith monitro yma yn ystod 2021-22. Fodd bynnag, ar amser yr archwiliad, mae trefniadau monitro bellach wedi ailgychwyn.

**6. <u>Camau Gweithredu</u>**

**Mae'r Gwasanaeth wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:**

- **Ail-ddechrau ymweliadau monitro er mwyn sicrhau priodoldeb gwasanaeth darparwyr allanol**

Atodiad 24

# GRANTIAU PRYNWYR TRO CYNTAF

## 1 Cefndir

1.1 Mabwysiadwyd Strategaeth Tai Cyngor Gwynedd 2019-24 yng Ngorffennaf 2019, gyda'r weledigaeth o: "Sicrhau bod gan bobl Gwynedd fynediad at gartref addas o safon, sy'n fforddiadwy ac sy'n gwella eu hansawdd bywyd". Adnabuwyd pum amcan sydd angen eu cyfarch i gyflawni'r weledigaeth hon:

1. Neb yn ddigartref yng Ngwynedd
2. Tai cymdeithasol ar gael i bawb sydd angen un
3. Cartref pawb yng Ngwynedd yn fforddiadwy iddynt
4. Tai Gwynedd yn amgylcheddol gyfeillgar
5. Cartrefi yn cael dylanwad cadarnhaol ar iechyd a llesiant pobl Gwynedd.

1.2 Lluniwyd Cynllun Gweithredu Tai Cyngor Gwynedd 2020/21 - 2026/27 i geisio ymateb i'r amcanion yma a gafodd ei fabwysiadu yn Rhagfyr 2020. Un o gynlluniau'r cynllun yw Grantiau Prynwyr Tro Cyntaf, sef, "Grantiau ar gyfer helpu prynwyr tro cyntaf i adnewyddu tai gweigion i safon byw derbyniol."

## 2 Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod trefniadau addas mewn lle ar gyfer gwirio ceisiadau gan brynwyr tai tro cyntaf am gymorth ariannol, yn ogystal a dyroddi'r grantiau. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio'r rheolaethau mewnol sydd mewn lle drwy wirio sampl o geisiadau ynghyd â'r dogfennau / tystiolaeth berthnasol er mwyn sicrhau bod y grantiau a weinyddir wedi cael eu prosesu yn briodol.

## 3 Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Sicrwydd | Disgrifiad |
|---|---|
| **DIGONOL** | **Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach.** |

## 4 Sgôr Risg Cyfredol

4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Risg | Nifer |
|---|---|
| UCHEL IAWN | 0 |
| UCHEL | 0 |
| CANOLIG | 3 |
| ISEL | 1 |

## 5 Prif Ddarganfyddiadau

5.1 Derbyniodd y cynllun grantiau prynwyr tro cyntaf llawer o gyhoeddusrwydd ym Mehefin 2021, ond fe addaswyd y meini prawf yn ddiweddarach yn y flwyddyn h.y.

- Cynyddwyd ffigyrau'r 'Canllaw Cost Derbyniol' sef yr uchafswm pris eiddo a ganiateir (fesul band treth Cyngor a maint y teulu).
- Gwaredu'r uchafswm nifer llofftydd a ganiateir yn yr eiddo.
- Lleihau'r nifer o fisoedd mae angen i'r eiddo fod yn wag o 12 mis i 6 mis.

Ni chafodd yr addasiadau yma gyhoeddusrwydd ar y pryd.

5.2 Mae'r meini prawf yn nodi bod rhaid i un neu ddau o'r ymgeiswyr fod wedi byw am o leiaf y 5 mlynedd flaenorol yn ardal Cyngor Cymuned (neu ardal gyfochrog) yr eiddo a brynwyd o'r newydd. Gwiriwyd y dystiolaeth oedd wedi ei ddarparu a gwelwyd nad oedd digon o dystiolaeth wedi ei dderbyn yn y ddau achos isod:

1. Eiddo 1 - dyddiad prynu'r eiddo 10/08/22 - datganiadau banc wedi eu derbyn ar gyfer Awst 2018 i Awst 2022 - 4 mlynedd yn unig.
2. Eiddo 2 - dyddiad prynu'r eiddo 03/05/22 - datganiadau banc wedi eu derbyn ar gyfer Tachwedd 2017 i Mai 2022 - 4.5 mlynedd yn unig.

5.3 Gwiriwyd sampl o anfonebau a thystysgrifau gwaith adnewyddu lle'n berthnasol. Gwelwyd un achos lle nad oedd tystysgrif wedi ei dderbyn ar gyfer gwaith gosod ffenestri a drysau.

5.4 Unwaith mae'r grant yn cael ei gymeradwyo, gofynnir i'r ymgeiswyr arwyddo a dychwelyd y cytundeb i'r gwasanaeth. Yna mae'r Gwasanaeth Cyfreithiol yn gwneud cais i'r Gofrestrfa Tir i gofrestru cyfyngiad cyfreithiol yn erbyn yr eiddo. Mae trafferthion wedi bod gyda'r broses yma ond mae'r Gwasanaeth Cyfreithiol nawr wedi cytuno ar y ffordd ymlaen yn ffurfiol gyda'r Gofrestra Tir lle gall ceisiadau am gyfyngiadau mewn perthynas â chytundebau grant fod ar gyfer cyfyngiadau ffurf safonol.

## 6 <u>Camau Gweithredu</u>

**Mae'r swyddogion perthnasol wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:**

- **Cwblhau'r ffurflen bwrpasol ar gyfer y Swyddog Cyfathrebu Cynlluniau Tai Dros Dro yn manylu ar beth sydd angen ei hysbysebu a phryd.**
- **Sicrhau bod misoedd yn cael eu gwirio yn hytrach nag y blynyddoedd yn unig wrth wirio'r dystiolaeth bod ymgeiswyr wedi byw am o leiaf y 5 mlynedd flaenorol yn ardal Cyngor Cymuned (neu ardal gyfochrog) yr eiddo a brynwyd o'r newydd.**
- **Sicrhau fod tystysgrifau yn cael eu darparu cyn gwneud unrhyw daliadau.**
- **Cydweithio gyda'r Gwasanaeth Cyfreithiol er mwyn sicrhau bod ymgeiswyr cymwys am y grant prynwyr tro cyntaf (gan gynnwys y rheini sydd eisoes wedi derbyn taliadau grant) yn arwyddo cytundeb a'r ffurflen gyfreithiol bwrpasol fel bod modd cofrestru cyfyngiad cyfreithiol yn erbyn yr eiddo gyda'r Gofrestra Tir.**